
Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh

Adroddiad Deg Mlynedd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Ten-Year Report of the National Centre for Learning Welsh



I Gyfarch *Dysgu Cymraeg* ar gyrraedd y 10 mlwydd oed.

Mileniwm mewn deng mlynedd
ond o hyd wyt sionc dy wedd!
Wyt ganolfan i'r cannoedd,
tŷ i'r iaith lle gynt yr oedd
tawelwch, tŷ i'r teulu
lawenhau a'u lleisiau'n llu,
athrofa'r llafar eu llef,
adran ein dyfod adref;
tŷ ein hiaith, a'm hiaith fy hun,
iaith i bawb, iaith i bobun,
dyma'n hiaith, dim 'ni-a-nhw',
iaith tiwtoriaid, iaith twrw,
nid iaith i'r ychydig dethol,
rwyf i ... a chi ... yn ei chôl;
iaith hwb espresso dwbwl,
iaith criw'r 'hoffi coffi' cŵl,
iaith brin sy'n creu rhwydwaith bro,
rhwydwaith y Robin Radio,
a'r iaith sy'n bair o eiriau,
hen bair hud a fyn barhau;
ac awn, 'mlaen i'r ugeinmlwydd,
â chlamp o 'ymdrech a lwydd',
agor byd â'n geiriau bach,
byd dwyieithog, byd doethach;
ein Cymraeg yw'n camau rhydd,
ein hiaith ni yw'r daith newydd.

Mererid Hopwood



Gair gan y Prif Weithredwr

Fis Awst 2027, bydd gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn trosglwyddo i'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, un o gyrff hyd braich gweithredol Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025. Bydd yr Athrofa yn adeiladu ar sylfeini llwyddiannus y Ganolfan, a'i nod yw hwyluso a chefnogi dysgu Cymraeg fel bod mwy o bobl (o bob oedran) yn dysgu'r iaith.

Ar y groesffordd bwysig hon i'r sector Dysgu Cymraeg felly, braint yw gallu cyflwyno'r Adroddiad Deg Mlynedd hwn i gloriannu cyflawniad y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Fel un o'r staff cyntaf i weithio i'r Ganolfan yn ôl yn 2016 dw i wedi bod yn dyst i'r gwaith caled a'r dycnwch ar hyd y daith. Dechreuais fy siwrne gyda'r Ganolfan ym mis Chwefror 2016 gyda Helen Prosser a Hannah Thomas, o dan arweiniad Efa Gruffudd Jones, y Prif Weithredwr cyntaf – tîm bychan, ond tîm â thân yn ein boliau.

Chief Executive's Introduction

In August 2027, the work of the National Centre for Learning Welsh will transfer to the National Institute for Learning Welsh. The Institute will be an operational arm's-length body of the Welsh Government, set up under the Welsh Language and Education (Wales) Act 2025. It will build on the strong foundations laid by the Centre and will support and enable more people of all ages to learn Welsh.

At this important turning point for the Learn Welsh sector, it's a privilege to present this Ten-Year Report to celebrate the achievements of the National Centre for Learning Welsh.

As one of the first members of staff to join the Centre in 2016, I've seen first-hand the hard work and tenacity that have brought it this far. I started at the Centre in February of that year alongside Helen Prosser and Hannah Thomas, in a team led by Efa Gruffudd Jones, the first Chief Executive. We were a small team, but we had fire in our bellies.



Wedi ein harfogi ag adroddiad *Codi Golygon*, wedi ei arwain yn gelfydd gan Dr Haydn Edwards ac aelodau'r Grŵp Adolygu Cymraeg i Oedolion, dechreuwyd ar y gwaith pwysig o sefydlu Canolfan i osod arweiniad strategol i'r sector yng Nghymru - minnau'n Ddirprwy Brif Weithredwr ar y pryd ac yn arwain y Gyfarwyddiaeth Systemau. Roedd y dyddiau cynnar hynny'n gyfnod cyffrous o sefydlu'r Ganolfan a'r sector Dysgu Cymraeg.

Ddeng mlynedd yn ddiweddarach, dw i wedi cael fy syfrdanu gan arloesedd y tîm agos o'm cwmpas yn ogystal â'r tîm ehangach – staff y Ganolfan, y darparwyr a'r 500 o diwtoriaid ledled Cymru sy'n ysbrydoli ein dysgwyr a siaradwyr newydd yn ddyddiol, i ddysgu, defnyddio a mwynhau'r Gymraeg.

Dw i'n argyhoeddedig fod rôl allweddol i ddysgwyr a siaradwyr newydd y Gymraeg wrth gyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a dw i'n hynod falch o gyfraniad y Ganolfan hyd yn hyn.

Ers i'r Ganolfan agor ei drysau, ac wrth i'r adroddiad yma fynd i brint, mae 92,970 o ddysgwyr unigryw wedi dysgu Cymraeg gyda ni. Tu hwnt i'r niferoedd sy'n cwblhau ein cyrsiau, 'dyn ni wedi dylanwadu ar ddefnydd unigolion o'r Gymraeg gan roi'r hyder iddynt i ddefnyddio'r iaith – gyda'u teuluoedd, yn y gymuned ac yn y gwaith.

Mae mwy am gyflawniadau'r Ganolfan yn yr adroddiad hwn, a galla i gadarnhau mai stori o gynnydd yw stori ein sector. Cynnydd o ran niferoedd ond cynnydd hefyd o ran mwynhad pobl o'r Gymraeg. Mae straeon y siaradwyr newydd sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad yn rhoi blas i chi o'r mwynhad hwnnw – straeon sy'n parhau i fy ysbrydoli innau bob dydd, ble bynnag mae'r dysgwyr ar eu taith iaith.

Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd a llawenhawn yng nghynnydd ieithyddol pob un o'n dysgwyr. Yr hyn sy'n bwysig i ni yw creu amgylchiadau dysgu croesawgar a chyffrous sy'n ysgogi a meithrin sgiliau iaith a dw i mor ddiolchgar i'n holl staff, tiwtoriaid, partneriaid a chyfeillion sydd wedi cefnogi'r genhadaeth honno.

Wrth baratoi i drosglwyddo i'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, hoffwn ddiolch o waelod calon i bawb sydd wedi cefnogi gwaith y Ganolfan, o'r egin syniad i'w wireddu. Dw i'n gobeithio eich bod yn falch o'r hyn yr ydym wedi ei gyflawni gyda'n gilydd. Mae'n amser codi golygon eto wrth i ni agor pennod newydd, ac edrychwn ymlaen at ehangu a thyfu'r gefnogaeth gadarn sydd yma yng Nghymru i alluogi pawb i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.

Dona Lewis, Prif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Tachwedd 2026

Armed with the *Raising our sights* report, skilfully produced by Dr Haydn Edwards and members of the Welsh for Adults Review Group, we began the important work of setting up a Centre to provide strategic leadership for the sector in Wales. At the time, I was Deputy Chief Executive, leading the Systems Directorate. Those early days were exciting, both for the Centre as it took shape and for the wider Learn Welsh sector.

Ten years on, I've been amazed by the innovation of both my immediate team and the wider team: the Centre's staff, our providers, and the 500 tutors across Wales who inspire our new learners and speakers every day to learn, use and enjoy Welsh.

I'm convinced that new Welsh learners and speakers have a key role to play in reaching the Welsh Government's ambition of creating a million Welsh speakers by 2050, and I'm extremely proud of the Centre's contribution to date.

At the time of going to print, 92,970 individuals have learnt Welsh with us since the Centre was set up. Yet our impact goes beyond those who have completed our courses. We have also encouraged people to use Welsh, giving them the confidence to speak it with their families, in their communities and at work.

You'll find more about the Centre's achievements throughout this report, and I can say with confidence that our sector's story is one of progress. Learner numbers have grown, and so has people's enjoyment of Welsh. The new speakers' stories in this report give you a taste of that success. Whatever stage these learners have reached, their stories continue to inspire me every day.

The Welsh language belongs to us all and we take great joy in the progress of each of our learners. Our priority is to create welcoming and exciting learning environments that stimulate and nurture language skills. I'm so grateful to all our staff, tutors, partners and friends who have supported us in this mission.

As we prepare to transfer to the National Institute for Learning Welsh, I'd like to sincerely thank everyone who has supported the Centre's work, from its earliest days to its most recent achievements. I do hope you're proud of what we've achieved together. It's time to raise our sights again as we begin a new chapter. We look forward to growing the strong support that already exists here in Wales, so that everyone can learn and use Welsh.

Dona Lewis, Chief Executive of the National Centre for Learning Welsh

November 2026



CYFLWYNIAD

Wrth edrych yn ôl ar ddegawd o weithredu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, mae'n bwysig cofnodi a chydnabod y cerrig sylfaen i'n taith fel sefydliad, yn ogystal â'r unigolion allweddol fu'n gosod y sylfeini hynny.

Codi Golygon

Yn 2012, comisiynodd Llywodraeth Cymru arolwg o'r sector Cymraeg i Oedolion yng Nghymru dan ofal y Grŵp Adolygu Cymraeg i Oedolion. Arweiniwyd y gwaith gan Dr Haydn Edwards a chyhoeddwyd *Codi Golygon – Adolygiad o'r maes Cymraeg i Oedolion* ym mis Gorffennaf 2013. Yr adroddiad hwn osododd y fframwaith ar gyfer ailstrwythuro'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion. Un o'r prif argymhellion oedd sefydlu 'Endid' cenedlaethol fyddai'n darparu arweiniad strategol, cydlynu'r cwricwlwm, hyfforddiant, ymchwil, marchnata ac e-ddysgu, ynghyd â lleihau nifer y darparwyr er mwyn osgoi dyblygu a sicrhau mwy o gysondeb a gwerth am arian. Yn ei ragair i'r adroddiad, pwysleisiodd Dr Edwards uchelgais trawsnewidiol yr argymhellion ond gosododd hefyd her ac anogaeth i anelu'n uwch:

"Mae gan y maes botensial mawr, ac mae'r amser wedi dod i ni fel cenedl godi golygon."

Roedd yr adroddiad yn argymell rhoi anghenion dysgwyr wrth galon y gweithgarwch drwy ddefnyddio data ac ymchwil i dargedu dysgwyr newydd, ehangu cyrsiau dwys a datblygu dulliau marchnata mwy effeithiol. Roedd argymhellion hefyd i ddatblygu strategaeth gynhwysfawr ar gyfer Cymraeg yn y Gweithle a chryfhau Cymraeg i'r Teulu, ochr yn ochr â gwneud e-ddysgu a thechnoleg yn rhan ganolog o'r profiad dysgu.

O ran safonau dysgu, roedd argymhellion clir am yr angen i ddatblygu cwricwlwm cenedlaethol, adnoddau mwy deniadol ac amrywiol, adolygu cymwysterau a dulliau asesu, a darparu mwy o hyfforddiant a datblygiad proffesiynol i diwtoriaid, yn ogystal ag argymhellion o safbwynt anghenion cyllido a llywodraethu. Roedd yr adroddiad yn gwthio'r sector i fod yn fwy cydlynol, effeithiol a hygyrch gan ddenu mwy o ddysgwyr a chynyddu nifer y bobl sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn y teulu, y gymuned a'r gweithle.

"Gweledigaeth Leighton Andrews, Gweinidog Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru, oedd sefydlu adolygiad o'r maes Cymraeg i Oedolion. Cefais wahoddiad i arwain y gwaith a phenodwyd saith arall, arbenigwyr yn eu meysydd, i ymuno gyda'r Grŵp Adolygu: Ashok Ahir, Christine Jones, Eleri Wyn Williams, Gareth Jones, Meic Raymant, Merfyn Morgan a Rhian Huws Williams. Fe'n cefnogwyd gan dri o Lywodraeth Cymru – Awen Penri, Siwan Gwyndaf a Siwan Davies – ac roeddem yn gwerthfawrogi safon uchel eu gwaith. O'r cychwyn roedd gan bob un ohonom undod pwrpas, sef gweld Cymraeg i Oedolion yn datblygu ymhellach i ddod yn arf pwysig i gynyddu'n sylweddol niferoedd siaradwyr Cymraeg y degawdau oedd i ddod. Cawsom fel Grŵp Adolygu foddhad mawr pan dderbyniodd Llywodraeth Cymru'r argymhellion a dechrau eu gweithredu."

Dr Haydn Edwards, awdur *Codi Golygon – Adolygiad o'r maes Cymraeg i Oedolion*

"Setting up a review of the Welsh for Adults sector was the idea of Leighton Andrews, then Minister for Education and Skills at the Welsh Government. I was invited to lead the work and seven others, experts in their fields, were appointed to join the Review Group: Ashok Ahir, Christine Jones, Eleri Wyn Williams, Gareth Jones, Meic Raymant, Merfyn Morgan and Rhian Huws Williams. We were supported by three Welsh Government members of staff – Awen Penri, Siwan Gwyndaf and Siwan Davies – and we appreciated the high standard of their work. From the outset we shared a clear purpose: to see Welsh for Adults develop further into an important means of significantly increasing the numbers of Welsh speakers in the decades to come. As a Review Group, we were very pleased when the Welsh Government accepted the recommendations and began to implement them."

Dr Haydn Edwards, author of *Raising our sights – review of Welsh for Adults*

INTRODUCTION

As we look back on a decade of work at the National Centre for Learning Welsh, it's important to record and acknowledge the milestones in our journey as an organisation, as well as the key individuals who helped lay those foundations.

Raising our sights

In 2012, the Welsh Government commissioned a review of the Welsh for Adults sector, carried out by the Welsh for Adults Review Group. The work was led by Dr Haydn Edwards. The group's report, *Raising our sights – review of Welsh for Adults*, was published in July 2013. This report set out the framework for restructuring Welsh for Adults provision. One of its key recommendations was to set up a national 'Entity' that would be responsible for strategic leadership, curriculum co-ordination, training, research, marketing and e-learning. It also recommended reducing the number of providers to avoid duplication and to ensure greater consistency and better value for money. In his foreword to the report, Dr Edwards emphasised the transformative ambition of the recommendations. He also challenged and encouraged the sector to aim higher:

"This programme area has enormous potential and the time has come for us as a nation to raise our sights."

The report recommended putting learners' needs at the heart of provision. This would be achieved by using data and research to target new learners, expanding intensive courses and developing more effective marketing methods. Other recommendations included developing a comprehensive strategy for Welsh in the Workplace, strengthening Welsh for the Family, and making e-learning and technology central to the learning experience.

On learning standards, there were clear recommendations: developing a national curriculum and more attractive, varied resources; reviewing qualifications and assessment methods; and providing more training and professional development for tutors. Recommendations were also made on governance and funding requirements. The report pushed the sector to be more coherent, effective and accessible, in order to attract more learners and increase the number of people able to use Welsh confidently with their families, in their communities and at work.

Croesawyd yr adroddiad gan Lywodraeth Cymru a derbyniwyd nifer helaeth o'r argymhellion gyda chefnogaeth i sefydlu Endid cenedlaethol a rhesymoli'r hen gyfundrefn gan leihau'r nifer o ddarparwyr o 27 i 10. Erbyn mis Mai 2015, roedd Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu grant i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant i sefydlu'r 'Endid', a enwyd o hynny allan yn **Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol,** corff oedd â'r cyfrifoldeb i:

- Osod cyfeiriad strategol cenedlaethol i'r sector Cymraeg i Oedolion.
- Cynnig arweiniad i ddarparwyr Cymraeg i Oedolion.
- Codi safonau addysgu a dysgu Cymraeg i Oedolion.
- Datblygu cwricwlwm cenedlaethol difyr, priodol ac o safon.
- Cynhyrchu adnoddau addas i bob mathau o ddysgwyr.

O Endid i Ganolfan

Yn 2015, aeth Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ati i sefydlu a chartrefu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a lansiwyd y Ganolfan yn Eisteddfod Genedlaethol Y Fenni ym mis Awst 2016.

"Roedd ennill proses gystadleuol i sefydlu'r hyn a enwyd ar y pryd yn 'Endid' cenedlaethol er mwyn ad-drefnu maes Cymraeg i oedolion yn garreg filltir i'r Brifysgol. Yn ogystal â sefydlu trefn llywodraethiant newydd, ar ffurf Bwrdd Cwmni, cynhaliwyd proses o benodi aelodau annibynnol i ffurfio Bwrdd Ymgynghorol ar ei gyfer. Bu'r Brifysgol yn gartref trwy ddarparu swyddfeydd yn ei phencadlys yng Nghaerfyrddin yn ogystal ag isadeiledd a gwasanaethau craidd megis adnoddau dynol, technoleg gwybodaeth a'r gyflogres. Mae'r Brifysgol yn falch iawn o fod wedi chwarae rhan bwysig yn hanes sefydlu corff roddodd arweiniad cadarn i faes Dysgu Cymraeg."

Lowri Lloyd, Pro Is-Ganghellor Cysylltiol, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant



Bu Bwrdd y Cwmni a'r Bwrdd Ymgynghorol yn gefn i'r Ganolfan o'r dyddiau cynnar ac mae'n diolch yn fawr i'r Drindod ac i'r aelodau gweithgar hynny fu'n ein cynghori ar hyd y daith. Un o'r rheiny oedd yr Hybarch Randolph Thomas, cyn Gadeirydd y Brifysgol, a Chadeirydd cyntaf Bwrdd y Cwmni y Ganolfan. Yn gyn Archddeon Aberhonddu ac yn weithredol ar sawl Bwrdd Llywodraethol, roedd Randolph yn dod â phrofiad cadarn o weinyddu, llywodraethu a denu cyllid i gefnogi datblygiad y Ganolfan. Bu'n Gadeirydd am wyth mlynedd ac mae'n parhau yn gyfaill oes i'r sector.

From Entity to Centre

In 2015, the University of Wales Trinity Saint David began preparing to establish and host the National Centre for Learning Welsh. The Centre was launched at the National Eisteddfod in Abergavenny in August 2016.

"It was a landmark for the University to win a competitive process to set up what was then called a national 'Entity', which would reorganise Welsh for Adults provision. As well as setting up new governance arrangements in the form of a Company Board, the University appointed independent members to an Advisory Board for the Centre. As host, the University has provided offices at its Carmarthen headquarters, as well as core infrastructure and services such as human resources, information technology and payroll. The University is very proud to have played a key part in setting up a body that has given strong leadership to the Learn Welsh sector."

Lowri Lloyd, Associate Pro Vice-Chancellor, University of Wales Trinity Saint David

The Welsh Government welcomed the report and accepted the majority of its recommendations. It also supported establishing a national Entity and rationalising the old system by reducing the number of providers from 27 to 10. By May 2015, the Welsh Government had awarded a grant to the University of Wales Trinity Saint David (UWTSD) to set up the Entity. The new body was named the **National Centre for Learning Welsh** and given responsibility to:

- Set a national strategic direction for the Welsh for Adults sector.
- Provide leadership to Welsh for Adults providers.
- Raise the standards of teaching and learning in the Welsh for Adults sector.
- Develop an engaging, appropriate and high-quality national curriculum.
- Produce resources suitable for all types of learners.

The Company Board and Advisory Board have supported the Centre from the outset, and we are very grateful to UWTSD and to the hard-working members who have advised us over the years. Among them is the Venerable Randolph Thomas, former UWTSD Chair, and the first Chair of the Centre's Board. A former Archdeacon of Brecon who served on several governing boards, Randolph brought solid experience of administration, governance and fundraising that supported the Centre's development. He was Chair for eight years and remains a firm ally of the sector.

“Fel Cadeirydd, roedd fy mlaenoriaethau cychwynnol yn glir, sef i benodi staff o safon uchel gyda’r hygrededd a’r profiad i arwain, creu perthynas waith adeiladol rhwng y tîm rheoli a’r Bwrdd Rheoli ac yn olaf, gosod strategaeth glir i’r sector Dysgu Cymraeg yng Nghymru. Dw i’n falch o ddweud i ni lwyddo gyda’r tri pheth hyn.”

Yr Hybarch Randolph Thomas, Cadeirydd cyntaf Bwrdd Cwmni y Ganolfan.

Mae arbenigedd aelodau’r Bwrdd Ymgynghorol wedi cynnig cymorth a chyngor defnyddiol ar ystod eang o faterion trwy gydol oes y Ganolfan. Mae adroddiadau Estyn yn cydnabod cyfraniad pwysig aelodau Bwrdd y Cwmni a’r Bwrdd Ymgynghorol o ran atebolrwydd a llywodraethiant. Yn y blynyddoedd diweddar, cadeiriwyd y Bwrdd Ymgynghorol gan Alun Jones, cyn Brif Weithredwr Menter a Busnes, sydd wedi gwasanaethu ar bwyllgorau cenedlaethol niferus, ac sydd bellach yn gweithio fel cymhellydd busnes, darlithydd llawrydd a thiwtor Dysgu Cymraeg.

“Mae’r Bwrdd Ymgynghorol wedi llwyddo i ddarparu’r ystod sgiliau ac arbenigeddau sy’n angenrheidiol i gysgodi a chefnogi’r Ganolfan wrth iddi gyflawni ei hamcanion strategol a mynd ati i ail-gyflunio’r ddarpariaeth ar gyfer y sector Dysgu Cymraeg. Hoffwn ddiolch i aelodau’r Bwrdd Ymgynghorol am eu hymroddiad, eu hangerdd a’u brwdfrydedd diflino. Mae wedi bod yn siwrne llawn uchafbwyntiau a datblygiad yn hanes y Ganolfan.”

Alun Jones, Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol y Ganolfan



“As Chair, my initial priorities were clear: to appoint high-quality staff with the credibility and experience to lead; to build a constructive working relationship between the management team and the Board; and to set a clear strategy for the Learn Welsh sector in Wales. I’m pleased to say that we achieved all three.”

The Venerable Randolph Thomas, the first Chair of the Centre’s Company Board.

Members of the Advisory Board have drawn on their expertise to offer useful support and advice on a wide range of issues since the Centre was set up. Estyn’s reports recognise the important contribution made by members of the Company Board and the Advisory Board to accountability and governance. In recent years, the Advisory Board has been chaired by Alun Jones, former Chief Executive of Menter a Busnes. He has served on many national committees and now works as a business motivator, freelance lecturer and Learn Welsh tutor.

“The Advisory Board has provided the range of skills and expertise needed to shadow and support the Centre as it achieves its strategic objectives and reconfigures provision in the Learn Welsh sector. I’d like to thank the members of the Advisory Board for their dedication and tireless enthusiasm. It has been a journey full of highlights and growth in the Centre’s history.”

Alun Jones, Chair of the Centre’s Advisory Board

Cyfnod cychwynnol

Penodwyd Efa Gruffudd Jones yn Brif Weithredwr cyntaf y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a sefydlodd dîm rheoli cryf gyda thair cyfarwyddiaeth - Strategol, Systemau a Marchnata a Chyfathrebu – i ddatblygu ac arwain strategaeth glir i'r sector. Roedd y weledigaeth yn gadarn o'r cychwyn a bu'r gwaith o sefydlu partneriaethau â sefydliadau allweddol, ynghyd â'r gefnogaeth gan Weinidogion Llywodraeth Cymru i brosiectau megis Cymraeg Gwaith a chyrsiau iaith am ddim i Bobl Ifanc, yn drawsnewidiol i'r sector.



"Cofiaf yn glir y cyffro a deimlais wrth ddarllen yr adolygiad o'r maes Dysgu Cymraeg, a'r alwad glir am ddiwygio, lleihau dyblygu a darparu arweiniad newydd i'r sector. Dyma gyfle i ymgymryd â her sylweddol mewn maes a oedd yn agos iawn at fy nghalon. Yn naturiol ddigon roeddwn yn hollol ymwybodol nad oedd gennyf unrhyw brofiad o ddysgu, nac o ddatblygu cwricwlwm ac adnoddau – byddai'n rhaid penodi eraill i'm helpu gyda hynny. Ond yr hyn a'm gyrrodd oedd awydd i wneud gwahaniaeth... drwy arwain sefydliad blaengar, arloesol fyddai'n denu dysgwyr newydd i'r Gymraeg."

Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr cyntaf y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Un tîm ac un cwricwlwm

Yn ei Strategaeth Dysgu Cymraeg gyntaf, ymrwymodd y Ganolfan i "weithio fel un tîm cenedlaethol sy'n rhoi'r gwasanaeth gorau i ddysgwyr a siaradwyr newydd y Gymraeg." I wireddu hyn, roedd cydweithio â'r darparwyr ar draws Cymru yn gwbl allweddol.

O fewn blwyddyn, roedd y Ganolfan yn gorff cynllunio ieithyddol canolog yn eiriol dros y sector Dysgu Cymraeg a hefyd yn gosod arweiniad strategol a chyfeiriad cadarn o ran denu siaradwyr newydd at yr iaith. Yn yr un flwyddyn hefyd, datblygwyd y Cwricwlwm Cenedlaethol cyntaf erioed i'r sector, o dan arweiniad Helen Prosser, Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu'r Ganolfan.

Roedd datblygu llyfrau cwrs cenedlaethol ar bedair lefel - Mynediad, Sylfaen, Canolradd ac Uwch - yn garreg filltir arwyddocaol, gyda'r cwricwlwm yn gosod llwybr clir wedi ei seilio ar fframwaith y CEFR (Common European Framework of Reference for Languages) - system ryngwladol i ddisgrifio sgiliau ieithyddol.

"Mewn cyfnod byr, mae'r Ganolfan wedi llwyddo i gysoni darpariaeth Dysgu Cymraeg ar draws Cymru... Mae'r Ganolfan wedi creu cwricwlwm a llyfrau cwrs cenedlaethol am y tro cyntaf yn hanes y sector. Mae uwch swyddogion y Ganolfan yn cynnig arweiniad arloesol ac ysbrydoledig i'r sector."

Arolwg Estyn o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, 2021

Founding years

Efa Gruffudd Jones was appointed as the first Chief Executive of the National Centre for Learning Welsh. She built a strong management team with three directorates – Strategic, Systems, and Marketing and Communications – to develop and lead a strategy for the sector. The vision was clear from the beginning. Setting up partnerships with key organisations was transformative for the sector, along with support from Welsh Government Ministers for projects such as Work Welsh and free Welsh courses for young people.

"I vividly remember the excitement I felt reading the review of the Welsh for Adults sector, with its clear call for reform, for less duplication and for new leadership. This was an opportunity to take on a significant challenge in an area that was very close to my heart. Of course, I was fully aware I had no experience of teaching, or of developing a curriculum and resources. I would need to appoint others to help me with that. What drove me, though, was a desire to make a difference by leading a progressive, innovative organisation that would attract new learners to Welsh."

Efa Gruffudd Jones, first Chief Executive of the National Centre for Learning Welsh

One team, one curriculum

In the Centre's first Strategic Plan, we committed to "work as one national team providing the best service for learners and new speakers of Welsh." Working closely with providers across Wales was key to achieving this.

Within a year, the Centre had become a key language planning body that advocated for the Learn Welsh sector. It was also setting strategic direction and taking a firm lead in attracting new speakers to the language. That same year, Helen Prosser, the Centre's Director of Teaching and Learning, led the development of the sector's first ever national Learn Welsh Curriculum.

Developing national course books at four levels – Entry, Foundation, Intermediate and Advanced – was a significant milestone. The curriculum set a clear pathway based on the Common European Framework of Reference for Languages (CEFR), an international system for describing language skills.

"In a short period of time, the Centre has succeeded in ensuring consistency in Learn Welsh provision across Wales... The Centre has created a national curriculum and course books for the first time in the sector's history. The Centre's senior leaders provide the sector with innovative and inspirational leadership."

Estyn's report on the National Centre for Learning Welsh, 2021

Dysgwyr wrth galon ein marchnata

Roedd datblygu un brand clir yn flaenoriaeth uchel i'r Ganolfan a mabwysiadwyd Dysgu Cymraeg fel brand cydnabyddedig cenedlaethol, o dan arweiniad Hannah Thomas, Cyfarwyddwr Marchnata a Chyfathrebu'r Ganolfan.

Rhoddwyd profiad y dysgwr yn ganolog i'r strategaeth farchnata a chyfathrebu gan greu safle rhyngweithiol www.dysgucymraeg.cymru fel pwynt canolog i lywio dysgwyr newydd tuag at gyrsiau, adnoddau, llyfrau cwrs a gweithgareddau, i'w cefnogi ar hyd eu taith ddysgu.

Enillodd y brand Dysgu Cymraeg ei blwy yn gynnar iawn a chrëwyd delwedd a negeseuon cyson ar draws ein gweithgareddau yn genedlaethol, gan roi unoliaeth a gwell ymgysylltiad rhwng darpar ddysgwyr a'r sector.

Talodd y pwyslais ar ddulliau marchnata digidol ar ei ganfed, wrth i ymgyrchoedd creadigol ar lwyfannau cymdeithasol megis Facebook, TikTok, YouTube a Snapchat, arwain miloedd ar filoedd o ddefnyddwyr at y safle rhyngweithiol. Yn ystod 2025-2026, gwnaeth dros 500,000 o unigolion ymweld â'r safle.

Datblygwyd ymgyrchoedd yn seiliedig ar dystiolaeth ac ymchwil, a ganiataodd deilwra negeseuon ar gyfer carfannau penodol, ac ardaloedd daearyddol amrywiol. Mae'r Ganolfan wedi cydweithio â nifer o lysgenhadon blaenllaw, gan gynnwys Aleighcia Scott, Tori James, Katie Owen, ac Ian Gwyn Hughes, i ledaenu'r negeseuon cadarnhaol am ddysgu a mwynhau'r Gymraeg.

"Mae strategaeth farchnata a chyfathrebu effeithiol a chreadigol y Ganolfan yn denu cynulleidfaoedd newydd o ddysgwyr... Mae arweinwyr yn canolbwyntio'n bwrpasol ar greu ymgyrchoedd sy'n seiliedig ar ymchwil farchnad a dadansoddi trwyadl iawn i ddenu darpar ddysgwyr newydd."

Arolwg Estyn o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, 2021





Putting learners at the heart of our marketing

Developing a single, clear brand was a high priority for the Centre. Hannah Thomas, the Director of Marketing and Communications, led the work to adopt Learn Welsh as the national brand. That brand is now widely recognised across Wales.

The learner experience was central to the marketing and communications strategy. The Centre created an interactive website, www.learnwelsh.cymru, as the main point of contact to guide new learners towards courses, resources, course books and activities, supporting them at every stage of their learning.


The Learn Welsh brand quickly established itself, creating imagery and messaging across our national activities. This helped bring greater cohesion to our work, and strengthen engagement between prospective learners and the sector.

The focus on digital marketing paid dividends, as creative campaigns on social media platforms such as Facebook, TikTok, YouTube and Snapchat led many thousands of users to the interactive website. During 2025-2026, over 500,000 individuals visited the site.

Campaigns were based on evidence and research, so that messages could be tailored to specific groups and different geographical areas. The Centre has worked with high-profile ambassadors, including Aleighcia Scott, Tori James, Katie Owen and Ian Gwyn Hughes, to share positive messages about learning and enjoying Welsh.

"The Centre's effective and creative marketing and communication strategy attracts new audiences of learners. Leaders focus purposefully on creating campaigns that are based on market research and very thorough analysis in order to attract new prospective learners."

Estyn's report on the National Centre for Learning Welsh, 2021



Gweledigaeth glir

Datblygwyd strategaeth glir ac uchelgeisiol i'r sector, yn ymateb yn uniongyrchol i argymhellion adroddiad *Codi Golygon*.

Yn ogystal â chysoni'r ddarpariaeth ledled Cymru, yn sgil datblygu cwricwlwm a llyfrau cwrs, aed ati â nifer o ddatblygiadau strategol:

- **Arloesi'n ddigidol** Cyflwynwyd safle rhyngweithiol aml-haenog a drawsnewidiodd y sector. Am y tro cyntaf, roedd dysgwyr ym mhob man yn gallu chwilio am gyrsiau Dysgu Cymraeg yn yr un lle, yn ogystal â chael mynediad at adnoddau dysgu digidol o safon i gefnogi'u dysgu. Ar yr un pryd, roedd modd i diwtoriaid dracio cynnydd, a chefnogi'r dysgwyr ar eu taith iaith.

- **Datblygu'r gynulleidfa a meithrin y galw am gyrsiau** Ymestynnwyd y gwaith o ddysgu Cymraeg i oedolion yn y gymuned i raglenni cynhwysfawr ar gyfer gweithluoedd a sectorau penodol, teuluoedd a phobl ifanc gan estyn croeso i bawb i ddysgu Cymraeg, a chodi proffil y sector.

- **Modelau Dysgu Amrywiol** Esblygwyd ein modelau dysgu o fod yn ddosbarthiadau wyneb yn wyneb i allu cynnig opsiynau dysgu rhithiol, cyfunol a hunan-astudio. Esblygwyd y cynnig i adlewyrchu prysurdeb bywydau pob dydd ein dysgwyr a darpar ddysgwyr, gan wneud dysgu Cymraeg yn hygyrch i fwy a mwy o bobl.

- **Cydweithio** – Mewn partneriaeth â sefydliadau cenedlaethol llwyddwyd i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd a chreu mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio a mwynhau eu Cymraeg. Ymhlith y partneriaid hynny, mae S4C, BBC Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru, Mentrau Iaith Cymru, Merched y Wawr, yr Eisteddfod Genedlaethol, ac Urdd Gobaith Cymru.

A clear vision

A clear and ambitious strategy was developed for the sector, in direct response to the recommendations of the *Raising our sights* report.

The new curriculum and course books made provision more consistent across Wales, combined with several other strategic developments:

- **Digital innovation** A multi-layered, interactive digital platform was created that transformed the sector. For the first time, learners everywhere could search for Learn Welsh courses in one place and use high-quality digital resources to support their learning. At the same time, tutors could track progress and support their learners on their language journey.

- **Growing the audience and the demand for courses** The work grew beyond teaching Welsh to adults in the community. Comprehensive programmes were developed for specific workforces and sectors, for families and for young people, welcoming everyone to learn Welsh, and raising the profile of the sector.

- **Diverse teaching models** Teaching models evolved from in-person classes to include virtual, blended and self-study options. This growth reflected the busy lives of current and prospective learners, making learning Welsh accessible to more and more people.

- **Collaboration** Working with national organisations, the Centre reached new audiences and created more opportunities for learners to use and enjoy their Welsh. These partners include S4C, BBC Cymru/Wales, the Books Council of Wales, Mentrau Iaith Cymru, Merched y Wawr, the National Eisteddfod, and Urdd Gobaith Cymru.



Yn 2021, cynhaliodd Llywodraeth Cymru Adolygiad Cyflym o'r Ganolfan gan roi cydnabyddiaeth i gynnydd sylweddol yn y gwaith ers ei sefydlu yn 2016:

"Yng Ngham 1 ei bodolaeth, mae'r Ganolfan wedi llwyddo i ad-drefnu, ailstrwythuro ac arwain y ddarpariaeth Dysgu Cymraeg genedlaethol, gan wireddu gweledigaeth Codi Golygon... Edrychwn ymlaen yng Ngham 2 i weld y Ganolfan yn datblygu ei photensial i fod yn bwerdy ar gyfer caffael iaith ar draws y continwwm cyfan ac i fod yn ddylanwadwr strategol wrth gymhwyso'r rôl ymestynedig yma at wireddu polisïau a chynllunio iaith Llywodraeth Cymru."

Steve Morris, Adolygiad Cyflym o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Yn yr un flwyddyn ag Adolygiad Cyflym y Llywodraeth, cynhaliodd Estyn arolwg o'r Ganolfan, gan gasglu:

"Mae gan y Ganolfan weledigaeth glir i weddnewid tirlun ieithyddol Cymru drwy gefnogi dysgwyr i ddod yn ddefnyddwyr y Gymraeg o fewn eu cymunedau, gweithleoedd a rhwydweithiau, beth bynnag fo eu lefel ieithyddol. Mae'r Ganolfan yn cyfrannu'n effeithiol at nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

"Ers ei sefydlu mae'r Ganolfan wedi datblygu i fod yn llais cenedlaethol, dylanwadol i'r sector. Mae wedi llwyddo i greu ystod eang o bartneriaethau strategol gyda sefydliadau cenedlaethol i ymestyn y cynnig dysgu ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r Ganolfan wedi manteisio ar y partneriaethau cadarn hyn i gynnig arlwy amrywiol a chyffrous o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio eu medrau ieithyddol boed hynny yn gymdeithasol, diwylliannol neu'n broffesiynol. Mae'r Ganolfan yn dod yn ffocws cynyddol i weithgareddau sydd yn allweddol i ymdrechion cynllunio ieithyddol ar draws sectorau targed gwahanol."

Arolwg Estyn o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, 2021



In 2021, the Welsh Government carried out a rapid review of the Centre, which recognised the significant progress it had made since it was established in 2016:

"In Phase 1 of its existence, the Centre has succeeded in reorganising, restructuring and leading national Learn Welsh provision, realising the vision of 'Raising our Sights'... We look forward in Phase 2 to the Centre developing its potential to be a powerhouse for language acquisition across the entire continuum and to be a strategic influencer in the application of this expanded role to the realisation of Welsh Government language policies and planning."

Steve Morris, A rapid review of the National Centre for Learning Welsh, 2021

That same year, Estyn carried out an inspection of the Centre and concluded:

"The Centre has a clear vision to transform the linguistic landscape of Wales by supporting learners to become users of the Welsh language within their communities, workplaces and networks, whatever their linguistic level. The Centre contributes effectively to the Welsh Government's aim of achieving a million Welsh speakers by 2050.

"Since its inception, the Centre has developed to become an influential, national voice for the sector. It has succeeded in creating a wide range of strategic partnerships with national organisations to extend the formal and informal learning offer. The Centre has taken advantage of these robust partnerships to provide a varied and exciting range of opportunities for learners to use their linguistic skills, whether socially, culturally or professionally. The Centre is increasingly becoming a focus for activities that are crucial to linguistic planning efforts across different target sectors."

Estyn's report on the National Centre for Learning Welsh, January 2021

LLINELL AMSER DEG MLYNEDD

Yn dilyn cyhoeddiad adroddiad *Codi Golygon* yn 2013, aeth Llywodraeth Cymru ati i gynnal proses dendro i sefydlu Endid Cymraeg i Oedolion cenedlaethol. Mae'r Llinell Amser isod yn nodi ein prif gyflawniadau ers hynny.

TEN-YEAR TIMELINE

Following the publication of the *Raising our sights* report in 2013, the Welsh Government held a tendering process to set up a national Welsh for Adults 'Entity'. The timeline below sets out our main achievements since then.

2015	– Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn ennill y cytundeb i gartrefu'r Endid, a enwyd 'Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.'	– The University of Wales Trinity Saint David wins the contract to host the 'Entity', named the 'National Centre for Learning Welsh'.
2016	– Penodi Efa Gruffudd Jones yn Brif Weithredwr cyntaf y Ganolfan. – Llunio a chyhoeddi cwricwlwm Dysgu Cymraeg cenedlaethol am y tro cyntaf erioed. – Sefydlu rhwydwaith o ddarparwyr er mwyn cynnig gwasanaeth o ragoriaeth. – Cyflwyno'r brand 'dysgucymraeg.cymru – learnwelsh.cymru.' – Lansiad y Ganolfan yn Eisteddfod Genedlaethol Y Fenni.	– Efa Gruffudd Jones appointed as the Centre's first Chief Executive. – The first ever national Learn Welsh curriculum developed and published. – A network of providers set up to deliver a service based on excellence. – The 'dysgucymraeg.cymru – learnwelsh.cymru' brand introduced. – The Centre launched at the National Eisteddfod in Abergavenny.
2017	– Creu safle rhyngweithiol www.dysgucymraeg.cymru – siop un stop ar gyfer y sector Dysgu Cymraeg, yn chwilotwr cyrsiau, platfform dysgu digidol, a gwefan.	– The interactive site www.learnwelsh.cymru is created: a one-stop-shop for the Learn Welsh sector, combining a course finder, a digital learning platform and website.
2018	– Sefydlu cynllun Dysgu Cymraeg 'Cymraeg Gwaith' ar gyfer gweithluoedd. – Dod yn gyhoeddwr ystadegau swyddogol Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector Dysgu Cymraeg. – Cyhoeddi llyfrau cwrs Mynediad ac Uwch 1 – y tro cyntaf i'r sector ddefnyddio llyfrau cwrs cenedlaethol – Cydweithio â Chyngor Llyfrau Cymru i ddatblygu cyfres lyfrau 'Amdani' wedi'i graddoli yn ôl lefelau'r cwricwlwm Dysgu Cymraeg. – Lansio 'Siarad', cynllun cenedlaethol i baru dysgwyr a siaradwyr rhugl.	– Work Welsh scheme set up for workforces. – The Centre becomes the Welsh Government's official publisher of statistics for the Learn Welsh sector. – Entry and Advanced 1 course books published, the first time the sector has used national course books. – 'Amdani' series of leisure books developed with the Books Council of Wales, graded to match the Learn Welsh curriculum levels. – 'Siarad' launched, a national scheme pairing learners with fluent speakers.



2019	– Datblygu cynlluniau sectorol cynhwysfawr ar gyfer y Gweithlu Addysg Drydyddol, Gofal ac Addysg Blynyddoedd Cynnar a Gofal Cymdeithasol. – Lansio 'Academi', cynllun newydd i ddatblygu sgiliau'r gweithlu Dysgu Cymraeg.	– Comprehensive sectoral schemes developed for the Tertiary Education Workforce, Early Years Childcare and Education, and Social Care. – 'Academi' launched, a new scheme to develop the skills of the Learn Welsh workforce.
2020	– Yn ystod Cofid, y ddarpariaeth Dysgu Cymraeg yn trosi'n ddarpariaeth rithiol. – Prysuro cynlluniau dysgu digidol, gan gynnwys cyrsiau cyfunol.	– Learn Welsh provision moves online during COVID-19. – Digital learning plans accelerated, including blended courses.
2021	– Dechrau datblygu cynlluniau Dysgu Cymraeg cenedlaethol ar gyfer y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol. – Lansio Cynllun Tiwtoriaid Yfory, i annog mwy o bobl ifanc i weithio yn y sector Dysgu Cymraeg.	– Work begins on national Learn Welsh schemes for the Health and Social Care sector. – Tutors of Tomorrow scheme launched to encourage more young people to work in the Learn Welsh sector.
2022	– Darparu cyrsiau am ddim ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed. – Ymestyn cynllun Cymraeg yn y Cartref gan leoli tiwtoriaid mewn ysgolion i gefnogi rhieni a theuluoedd i ddysgu Cymraeg.	– Free courses introduced for young people aged 16–25. – Welsh at Home scheme extended, with tutors based in schools to support parents and families to learn Welsh.
2023	– Penodi Dona Lewis yn ail Brif Weithredwr y Ganolfan. – Cyflwyno cynlluniau 'Croeso i Bawb' ar gyfer pobl nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt neu nad ydynt yn siarad llawer o Saesneg. – Datblygu partneriaethau newydd â Chymdeithas Bêl-droed Cymru, yr Urdd, Mudiad Meithrin ac S4C. – Sefydlu cyfarwyddiaeth newydd – y Gyfarwyddiaeth Strategol - i arwain ar y gwaith Dysgu Cymraeg i'r Gweithlu Addysg, Teuluoedd a Phobl Ifanc.	– Dona Lewis appointed as the Centre's second Chief Executive. – 'Croeso i Bawb' scheme introduced for people whose first language isn't English, or who only speak a little English. – New partnerships developed with the Football Association of Wales, the Urdd, Mudiad Meithrin and S4C. – A new Strategic Directorate set up to lead Learn Welsh work for the Education Workforce, Families and Young People.

2024	– Cyhoeddi Cynllun Codi Hyder newydd yn croesawu pobl yn ôl at y Gymraeg. – Dwysau ein gwaith â phobl ifanc 16-25 oed. – Ehangu'r cynllun Dysgu Cymraeg Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan leoli tiwtor ym mhob Bwrdd ac Ymddiriedolaeth Iechyd. – Lansio Rhaglen Dysgu Cymraeg newydd ar gyfer y Gweithlu Addysg.	– New Confidence-building Scheme announced, welcoming people back to Welsh. – Work with young people aged 16–25 intensifies. – Health and Social Care Learn Welsh scheme expanded, with a tutor based in every Health Board and NHS Trust. – New Learn Welsh programme launched for the Education Workforce.
2025	– Lansio Cynllun Gwrth-Hiliaeth y Ganolfan. – Cyhoeddi'r nifer uchaf o bobl ifanc yn Dysgu Cymraeg - 4,110 - (cynnydd o 483% ers cychwyn amser y Ganolfan). – Cynnal Cynhadledd Genedlaethol am y CEFR, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, gan gychwyn gwaith y Ganolfan yn cefnogi Deddf y Gymraeg ac Addysg 2025.	– The Centre's Anti-Racism Scheme launched. – Highest ever number of young people learning Welsh - 4,110 - (an increase of 483% since the Centre was established). – National conference on the CEFR held jointly with the Welsh Government, beginning the Centre's work to support the Welsh Language and Education (Wales) Act 2025.
2026	– Lansio cynllun Dysgu Cymraeg newydd ar gyfer y sector Chwaraeon. – Sefydlu Pwyllgor Ymchwil Dysgu ac Addysgu newydd. – Cyhoeddi'r nifer uchaf erioed o ddysgwyr, sef 20,445 yn cwblhau cyrsiau yn 2024-2025, cynnydd o 61% ers i'r Ganolfan ddechrau cyhoeddi data. – Paratoi ar gyfer trosglwyddiad y Ganolfan i'r corff statudol newydd, yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol.	– New Learn Welsh scheme launched for the Sport sector. – New Teaching and Learning Research Committee established. – Highest ever number of learners: 20,445 completing courses in 2024–2025, an increase of 61% since the Centre first began publishing data. – Preparations underway to transfer the Centre to the new statutory body, the National Institute for Learning Welsh.

DEG MLYNEDD MEWN RHIFAU

Fel Cyhoeddwr Ystadegau Swyddogol, mae'r Ganolfan wedi sicrhau bod data cywir am y sector yn cael eu cyhoeddi yn flynyddol fel sail i waith cynllunio ieithyddol. Dros y blynyddoedd, defnyddiwyd arolygon Dweud eich Dweud – holiadur i'n dysgwyr, sy'n denu 5,000 o ymatebion yn rheolaidd - i asesu bodlonrwydd a bwydo ein strategaeth a'n gweithgareddau fel Canolfan.

- Cyfanswm o 92,970 o ddysgwyr unigryw rhwng 2016-2026.
- Mae'r data swyddogol diweddaraf ar gyfer 2024-2025 yn nodi 20,445 o unigolion wedi cwblhau ein cyrsiau yn ystod y flwyddyn - cynnydd o 61% ar y niferoedd cyntaf yn 2017-2018.
- 2,000 o gyflogwyr yn rhan o'r cynlluniau Cymraeg Gwaith ar gyfer gweithluoedd.
- 30,000 o weithwyr wedi cymryd rhan yn y cynlluniau ar gyfer gweithluoedd.
- 1,500 o gyrsiau cymunedol bob blwyddyn.
- Cynnydd o 483% yn niferoedd y dysgwyr ifanc rhwng 2017 a 2025.
- 500 o diwtoriaid Dysgu Cymraeg yn gweithio yn y sector.
- 500,000 o ymweliadau i'r safle rhyngweithiol yn 2025-2026 www.dysgucymraeg.cymru
- 84,000 o lyfrau cyfres Amdani wedi eu gwerthu.
- Holiadur Dweud Eich Dweud 2025-2026 yn dangos bod 99% o ddysgwyr yn mwynhau dysgu Cymraeg.



TEN YEARS IN NUMBERS

As an Official Publisher of Statistics, the Centre ensures accurate data on the sector is published every year, in order to inform language planning. Over the years, we have used our Dweud eich Dweud/Have your Say learner survey, which regularly attracts 5,000 responses, to measure satisfaction and shape our strategy and activities.


- A total of 92,970 unique learners between 2016 and 2026.
- The latest official data, for 2024-2025, shows that 20,445 learners completed our courses during the year, a 61% increase on the first published figures, for 2017-2018.
- 2,000 employers involved in Work Welsh schemes for workforces.
- 30,000 workers have taken part in the schemes for workforces.
- 1,500 community courses each year.
- 483% increase in the number of young learners between 2017 and 2025.
- 500 Learn Welsh tutors working in the sector.
- 500,000 visits to the interactive site in 2025-2026 - www.learnwelsh.cymru
- 84,000 books sold in the 'Amdani' series.
- 99% of learners who responded to the Dweud eich Dweud/Have Your Say survey in 2025-2026 said they enjoyed learning Welsh.

CYFLAWNIADAU

Cynnydd cyson yn y nifer sy'n dysgu Cymraeg

Testun balchder yw cyhoeddi data am y niferoedd sy'n dysgu Cymraeg bob blwyddyn. Ers ein sefydlu, mae'r niferoedd hynny wedi tyfu, gyda chynnydd o 61% ers i ni ddechrau cofnodi niferoedd ein dysgwyr yn 2017-2018. Y data swyddogol diweddaraf sydd ar gael yw'r data ar gyfer y flwyddyn academaidd 2024-2025. Edrychwn ymlaen at gyhoeddi data 2025-2026 yng ngwanwyn 2027.

Mae'r graff isod yn tystio i'r cynnydd cyson a'r ffrwydrad a welsom yn ystod cyfnod Covid wrth i ni agor y llifddorau o ran ein darpariaeth dysgu ddigidol – sy'n dangos beth yr ydym yn gallu ei gyflawni wrth weithio'n greadigol ac yn arloesol. Mae'r taflwybr yn un hynod gadarnhaol wrth i ni gamu ymlaen i weithredu o fewn strwythur statudol yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, gan agor y drws i'r Gymraeg i hyd yn oed yn fwy o bobl.



Nifer y dysgwyr unigryw fesul blwyddyn academaidd

Un cwricwlwm ac adnoddau cenedlaethol

Roedd sefydlu un Cwricwlwm Dysgu Cymraeg ac adnoddau cenedlaethol i'r sector yn flaenoriaeth allweddol a wireddwyd yn fuan wedi sefydlu'r Ganolfan. Roedd y cwricwlwm yn cysoni a safoni'r ddarpariaeth ar ffurf pum cam i ddysgwyr y Gymraeg, gan roi un llwybr dysgu clir i ddod yn siaradwr Cymraeg.

O'r cwrs Mynediad (A1) ar gyfer dechreuwyr i Sylfaen (A2), Canolradd (B1), Uwch (B2) a Gloywi (C1/C2), cynhyrchwyd llyfrau cwrs safonol at bob haen o ddysgu. Mae'r lefelau yn cyd-fynd â'r CEFR, sy'n galluogi dysgwyr i symud ymlaen gam wrth gam o fewn fframwaith lefelau ieithyddol rhyngwladol.

Mae'r llyfrau cwrs ar gael mewn fersiynau De a Gogledd Cymru ac mae fersiynau llafar hefyd yn cael eu darparu. Yn ystod y 10 mlynedd hefyd, rydym wedi adeiladu banc o filoedd o adnoddau dysgu ac addysgu safonol i'n tiwtoriaid a'n dysgwyr, gydag ystod o'r rhain ar gael yn ddigidol. O gerddoriaeth i gylchgronau i adnoddau gramadeg, mae'r safle rhyngweithiol yn darparu popeth mewn un man canolog.

Y lefelau Dysgu Cymraeg, a lefelau'r CEFR:

Enw'r lefel Dysgu Cymraeg	Disgrifiad o'r gallu ieithyddol	Lefel CEFR
Mynediad	Gallu sgwrsio mewn ffordd syml a gallu dweud rhywbeth amdanyn nhw eu hunain.	A1
Sylfaen	Gallu sgwrsio am eu cefndir a'u milltir sgwâr, a siarad am wybodaeth bersonol neu deuluol; gallu dweud rhywbeth am eu gwaith a'u diddordebau pob dydd.	A2
Canolradd	Gallu defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd cyfarwydd yn y gwaith, yr ysgol a gweithgareddau hamdden.	B1
Uwch	Gallu trafod pynciau a themâu o bob math.	B2
Gloywi	Gallu mynegi eu hunain yn ddigymell, yn fanwl-gywir ac yn rhugl iawn.	C1/C2

ACHIEVEMENTS

Sustained growth in the number of Welsh learners

We are proud to publish data on the number of people learning Welsh every year. Those numbers have risen by 61% since we first recorded them in 2017-2018. The latest official data is for the academic year 2024-2025. We look forward to publishing the 2025-2026 data in spring 2027.


The graph below shows the steady progress made, and the surge seen during the COVID-19 period when we greatly expanded our digital learning. It shows what we can achieve when we work creatively and explore new approaches. The trajectory is a hugely positive one as we move into the statutory structure of the National Institute for Learning Welsh, which will open up the Welsh language to even more people.

One curriculum and national learning resources

Developing one, national, Learn Welsh curriculum and resources for the sector was a key priority, and this was achieved soon after the Centre was established. The curriculum brought greater consistency and standardised the provision for Welsh learners, through five learning levels, giving one clear pathway to becoming Welsh speakers.

National course books were produced for every level, from Entry (A1) for beginners to Foundation (A2), Intermediate (B1), Advanced (B2) and Proficiency (C1/C2). These are aligned with the CEFR, so learners can progress step by step through a framework of internationally recognised levels.

The course books come in versions suited to South Wales and North Wales dialects, and audio versions are available as well. Over the past 10 years, we have also built a bank of thousands of high-quality teaching and learning resources for our tutors and learners, many of them available online. From music to magazines to grammar resources, our interactive website brings everything together in one place.



Number of unique learners per academic year

Learn Welsh levels, and CEFR levels:

Learn Welsh level	Description of linguistic ability	CEFR level
Entry/ Mynediad	Able to converse in a simple way and able to say something about themselves.	A1
Foundation/ Sylfaen	Able to converse about their background and locality, and talk about personal or family information; able to say something about their work and everyday interests.	A2
Intermediate/ Canolradd	Able to use the Welsh language in familiar situations in work, school and leisure activities.	B1
Advanced/ Uwch	Able to discuss all kinds of topics and themes.	B2
Proficiency/ Gloywi	Able to express themselves spontaneously, precisely and very fluently.	C1/C2

Gweithlu proffesiynol

Mae statws cyflogaeth swyddi'r sector wedi newid yn sylweddol ers i'r Ganolfan gael ei sefydlu yn 2016. Yn ôl arolwg o'r gweithlu a gomisiynwyd yn 2024, roedd 69% o diwtoriaid ar gytundebau llawn a rhan amser, o'i gymharu â 20% yn 2016, a 53% o'r gweithlu ar gytundebau parhaol. Canfu'r arolwg hefyd fod bron i hanner y gweithlu wedi ymuno â'r sector yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf sy'n awgrymu twf yn apêl y sector fel maes gyrfa broffesiynol. Bellach, mae dros 500 o diwtoriaid, rheolwyr a staff cefnogi yn gweithio trwy'r rhwydwaith o ddarparwyr ar draws Cymru ac mae cefnogi'r gweithlu hwn wedi bod yn flaenoriaeth strategol bwysig i'r maes.

Yn 2019 lansiwyd 'Academi', cynllun i ddatblygu gwybodaeth a chynyddu gallu drwy gynnig ystod o gyfleoedd hyfforddiant, mentora a datblygiad proffesiynol parhaus i diwtoriaid y sector. Mewn partneriaeth â'r darparwyr, mae 'Academi' yn cynnig cymwysterau a llwybr hyfforddi sy'n addas i bawb.

"Mae adnodd canolog y Ganolfan ar gyfer dysgu proffesiynol, sef y platfform digidol 'Academi', yn tyfu ac yn esblygu'n barhaus. Mae'n hygyrch i bob aelod o staff yn y sector ac yn gyrchfan hanfodol wrth ystyried anghenion datblygiad proffesiynol parhaus tiwtoriaid... Mae rhaglen hyfforddiant flynyddol yn denu miloedd o ymrestriadau, ac mae tiwtoriaid yn elwa o'r rhychwant eang o adnoddau sydd ar gael iddynt. Mae tiwtoriaid yn dilyn cwrs Dechrau Dysgu sy'n rhoi sail gadarn iddynt ddechrau gyrfa. Mae'r cymhwyster dysgu cenedlaethol, sydd ar lefel 4, a llwybr dilyniant ers yr arolygiad diwethaf, sef unedau ychwanegol yn yr Academi, [yn] darparu llwybr datblygiad proffesiynol parhaus i diwtoriaid.

"Mae arweinwyr wedi creu diwylliant ac ethos sy'n cefnogi dysgu proffesiynol pob ymarferydd ar draws y sector."

Adroddiad Estyn o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, 2024

Mae'r sector Dysgu Cymraeg yn gyflogwr pwysig a theimlwn falchder yn llwyddiannau'r gweithlu hwn sy'n ganolog i gynnydd pob dysgwr.



Professional workforce

The way people are employed in the sector has changed significantly since 2016. A workforce survey commissioned in 2024 found that 69% of tutors were on full-time or part-time contracts, compared with 20% in 2016. It also found that 53% of the workforce were on permanent contracts. Almost half the workforce had joined the sector in the previous five years, suggesting it has become a more attractive career choice. More than 500 tutors, managers and support staff now work across our network of providers in Wales. Supporting this workforce has been a key priority for the sector.

In 2019, we launched 'Academi', a scheme to build knowledge and increase capacity. It offers tutors a range of training, mentoring and continuing professional development opportunities. In partnership with our providers, 'Academi' offers qualifications and a training pathway to suit everyone.

"The Centre's central resource for professional learning, the 'Academi' digital platform, is growing and evolving continuously. It is accessible to all members of staff in the sector and is an essential destination when considering the continuous professional development needs of tutors... An annual training programme attracts thousands of enrolments and tutors benefit from the wide range of resources that are available to them. Tutors follow the 'Dechrau Dysgu' course, which provides them with a firm basis to start a career. The national teaching qualification, which is at level 4, has a progression route since the last inspection, with additional units in the 'Academi' providing a continuous professional development path for tutors. Leaders have created a culture and ethos that supports the professional learning of all practitioners across the sector."

Estyn's report on the National Centre for Learning Welsh, 2024

The Learn Welsh sector is a significant employer, and we take pride in the achievements of the workforce, who are central to every learner's progress.

Dysgu yn y gymuned ac yn rhithiol

Ar hyd y blynyddoedd, mae'r sector wedi ehangu mynediad i gyrsiau Dysgu Cymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth draddodiadol — mewn cymunedau, ar-lein a modelau newydd sy'n cyrraedd mwy o bobl nag erioed o'r blaen. Trawsnewidiwyd ein modelau dysgu yn sgil pandemig Covid 19. Dros nos, trosglwyddodd y cyrsiau i ddosbarthiadau rhithiol, a gwthiwyd ein cynlluniau digidol i flaen yr agenda gyda mwy a mwy o adnoddau dysgu digidol yn cael eu creu a'u darparu trwy'n safle rhyngweithiol. Mae'r gwersi wyneb yn wyneb yn y gymuned yn parhau yn boblogaidd, gyda'r dewisiadau rhithiol a'r adnoddau dysgu digidol yn ychwanegu ac yn cyfoethogi'r dewisiadau sydd ar gael i bobl sydd eisiau dysgu'r iaith.

"Dw i'n ymarfer gyda fy meibion, ac yn defnyddio fy Nghymraeg yn y gwaith yn y Gymdeithas Tsieineaidd yng Nghymru. Dw i'n aelod o gôr y dysgwyr a dw i'n mwynhau siarad Cymraeg gyda aelodau'r côr. Dw i'n gwylio fideos Dysgu Cymraeg ar YouTube er mwyn ymarfer."

Foo Seng Thean, enillydd Siaradwr Cymraeg Newydd Gwobrau Ysbrydoli! 2025

Cefnogi gweithluoedd a chynlluniau sectorol

Bu cefnogi gweithluoedd yn greiddiol i strategaeth y Ganolfan ers 2018. Erbyn 2025, roedd dros 2,000 o gyflogwyr wedi manteisio ar y ddarpariaeth Dysgu Cymraeg, gan helpu degau o filoedd o staff i ddatblygu sgiliau Cymraeg a defnyddio'r iaith yn broffesiynol ac yn hyderus.

"Mae'n destun balchder gweld sut mae ein gwaith gyda gweithluoedd a sectorau allweddol wedi datblygu dros y blynyddoedd, ac ochr yn ochr â'r gwaith cymunedol a rhithiol, wedi llwyddo i roi cyfleoedd i fwy o bobl nag erioed i ddysgu'r iaith. Mae defnyddio'r Gymraeg yn mynd law yn llaw â dysgu'r Gymraeg, ac mae rhoi'r hyder a'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith yn eu gwaith pob dydd yn hanfodol bwysig i greu gwlad ddwyieithog. Drwy weithio mewn partneriaeth â chyflogwyr ac ar draws meysydd fel iechyd a gofal cymdeithasol, addysg a gofal plant, rydym yn gallu ymateb i anghenion penodol y gweithlu a dylanwadu'n gadarnhaol ar ddefnydd y Gymraeg mewn gwasanaethau ac yn ehangach. Mae'r datblygiadau hyn yn dangos sut mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cyfrannu'n uniongyrchol at greu gweithleoedd lle mae'r Gymraeg yn iaith fyw, naturiol a hyderus."

Dona Lewis, Prif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol



Community and online learning

Over the years, the sector has extended Learn Welsh courses beyond the traditional classroom - in communities, online and via new teaching models that reach more people than ever before. The COVID-19 pandemic transformed our teaching models. Overnight, courses moved to virtual classrooms. Digital learning became a top priority, with more and more digital resources being produced and made available through our interactive website. In-person lessons in the community remain popular, while virtual classes and digital resources now offer a wider, richer choice to anyone who wants to learn Welsh.

"I practise with my sons and use my Welsh at work at the Chinese Society in Wales. I'm a member of the learners' choir and I enjoy speaking Welsh with the choir members. I watch Learn Welsh videos on YouTube to practise."

Foo Seng Thean, winner of the New Welsh Speaker Award at the 2025 Inspire! Awards

Supporting workforces and sectoral schemes

Supporting workforces has been at the core of the Centre's strategy since 2018. By 2025, more than 2,000 employers had used our Learn Welsh provision, helping tens of thousands of staff develop their Welsh skills and use the language confidently in a professional capacity.

"We're proud of how our work with key sectors and workforces has grown over the years. Together with our community and online work, it has given more people than ever the chance to learn Welsh. Learning the language and using it go hand in hand. Giving people the confidence and opportunities to use it in their daily work is vital to creating a bilingual Wales. Working with employers in sectors such as health and social care, education and childcare, we can respond to each workforce's specific needs and encourage the use of Welsh in services and beyond. These developments show how the National Centre for Learning Welsh is helping to create workplaces where Welsh is a living language, used naturally and confidently."

Dona Lewis, Chief Executive of the National Centre for Learning Welsh



Datblygwyd rhaglenni sylweddol ar gyfer sectorau penodol, gan gynnwys addysg statudol, iechyd a gofal cymdeithasol, addysg drydyddol, y sector gofal plant, a chwaraeon. Mae llwyddiant y cynlluniau hyn yn bellgyrhaeddol – maen nhw'n cynyddu hyder staff i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg o fewn ein gwasanaethau cyhoeddus. Maen nhw hefyd yn ysgogi dysgwyr i barhau â'u hastudiaethau iaith, a'i defnyddio tu hwnt i gyd-destun y gweithle.

"Ro'n i eisiau dysgu Cymraeg i ddefnyddio'r iaith yn y gwaith. Yn gyflym iawn, gwnes i syrthio mewn cariad â'r iaith."

Louis Churcher, siaradwr Cymraeg newydd sy'n gweithio i Gyngor Sir Caerffili

Iechyd a Gofal

Yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn benodol, rydym wedi datblygu rhaglen Dysgu Cymraeg sylweddol sy'n cefnogi amcanion 'Mwy na geiriau' - cynllun Llywodraeth Cymru i gryfhau gwasanaethau iechyd a gofal yn y Gymraeg. Mae tiwtor wedi'i leoli ym mhob un Bwrdd Iechyd, gan ddarparu hyfforddiant Dysgu Cymraeg hyblyg ar bob lefel, ac mae cynlluniau wedi'u teilwra ar gyfer gwahanol arbenigeddau, gan gynnwys Dementia a Gofal Lliniarol a Diwedd Oes, a chynllun i gefnogi gweithwyr rhyngwladol i ddysgu am Gymru a'r Gymraeg. Yn fwy diweddar, mae partneriaethau â sefydliadau megis Macmillan a Choleg Brenhinol y Bydwragedd yn ymestyn y cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.

"Dw i'n defnyddio Cymraeg yn y gwaith bob dydd. 'Dyn ni eisiau darparu'r gwasanaeth gorau i'n cleifion, a phan maen nhw'n sâl, dw i'n gweld bod cyfathrebu â nhw yn eu hiaith gyntaf yn eu helpu i ymlacio a deall yn well. Yn aml, mae cleifion yn gwerthfawrogi fy ymdrechion i ddefnyddio'r Gymraeg."

Graham Boswell, Ymgynghorydd Meddygol yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth

Pobl ifanc

Mae'r twf yn niferoedd y bobl ifanc sy'n dysgu Cymraeg yn eithriadol. Trwy gynllunio'n ofalus ac yn strategol, mae'r Ganolfan yn rhoi cyfleoedd Dysgu Cymraeg i bobl ifanc ble bynnag maen nhw ar eu taith bywyd – p'un ai mewn coleg addysg bellach, yn dilyn prentisiaeth, cwrs allgyrsiol neu'n gadael ysgol ac yn chwilio am eu cam nesaf.

Cyflwynwyd cyrsiau am ddim i'r garfan yma yn 2022 ac aed ati i gynnal ymgyrchoedd marchnata digidol dwys i hyrwyddo'r cynnig. Mae'r Ganolfan wedi gweld twf o 483% yn niferoedd dysgwyr oedran 16-24 oed rhwng 2017 a 2025. Cynigir ystod o gyrsiau, ar hyd pob cam o'r continwwm iaith, ac mae'r Ganolfan yn cydweithio â phartneriaid i ehangu'r cyfleoedd a'r profiadau dysgu. Mae'r cydweithrediad â'r Urdd wedi cyfuno dysgu iaith gyda gweithgareddau awyr agored i bobl ifanc ac mae cyrsiau preswyl hefyd wedi eu cynnal i gyd-fynd â digwyddiadau celfyddydol cymunedol megis Gŵyl Canol Dre Caerfyrddin.

Mae'r Ganolfan hefyd wedi bod yn hyrwyddo'r sector fel maes gyrfa i bobl ifanc. Sefydlwyd cynllun Tiwtoriaid Yfory yn gyfle i bobl ifanc arsylwi dosbarthiadau a dysgu am dechnegau dysgu a chaffael iaith. Mae nifer o gyn-fyfyrwyr Tiwtoriaid Yfory bellach yn gweithio fel tiwtoriaid Dysgu Cymraeg, gan gynnwys mewn swyddi llawn amser yn y sector.



We have developed major programmes for specific sectors, including statutory education, health and social care, tertiary education, childcare and sport. These schemes have had a far-reaching impact. They give staff more confidence to provide services in Welsh and increase the use of Welsh in public services. They also motivate learners to keep learning Welsh and to use it outside work.

"I wanted to learn Welsh to use the language at work. Very quickly, I fell in love with the language."

Louis Churcher, a new Welsh speaker who works for Caerphilly County Borough Council

Health and Social Care

In health and social care, we have developed an extensive Learn Welsh programme that supports the objectives of *More than just words*, the Welsh Government's plan to strengthen Welsh-language services in this sector. Each Health Board has its own tutor, who offers flexible Learn Welsh training at every level. There are also tailored schemes for different specialties, including Dementia and Palliative and End of Life Care, and a scheme that helps international staff learn about Wales and the Welsh language. More recently, partnerships with organisations such as Macmillan Cancer Support and the Royal College of Midwives have created even more opportunities for people to learn and use Welsh.

"I use Welsh at work every day. We want to provide the best service to our patients, and when they are ill, I find that communicating with them in their first language helps them relax and understand things better. Patients often appreciate my efforts to use Welsh."

Graham Boswell, Consultant at Bronglais Hospital, Aberystwyth

Young people

The rise in the number of young people learning Welsh has been exceptional. Through careful and strategic planning, the Centre gives young people the chance to learn Welsh wherever they are in life: at a further education college, on an apprenticeship, taking an extra-curricular course or leaving school and looking for their next step.

In 2022, we introduced free courses for this age group, and intensive digital marketing campaigns were carried out to promote the offer. The number of learners aged 16–24 rose by 483% between 2017 and 2025. We offer various courses at every stage of the language continuum. We are also working with partners to widen the learning opportunities and experiences on offer. Our work with the Urdd has combined learning Welsh with outdoor activities for young people. Residential courses have also been held, timed to coincide with community arts events such as the Gŵyl Canol Dre festival in Carmarthen.

The Centre has also been promoting careers in the sector to young people. We set up the Tutors of Tomorrow scheme to give young people the chance to observe classes and find out about teaching techniques and how people learn a new language. Several young people who have taken part in the scheme now work as Learn Welsh tutors, some of them in full-time roles.

“Y peth gorau am fod yn diwtor Dysgu Cymraeg yw gweld dysgwyr yn magu hyder ac yn dechrau defnyddio’r Gymraeg yn eu bywydau pob dydd. Mae’n fraint cael bod yn rhan o’u taith ieithyddol ac i rannu fy nghariad at yr iaith gyda nhw. Dw i’n mwynhau bod yn greadigol wrth gynllunio gwersi bywiog, diddorol ac addas i anghenion y dysgwyr.”

Mari Hefin, Tiwtor Dysgu Cymraeg a fynychodd gwrs Tiwtoriaid Yfory

Gweithlu Addysg

Gyda dyfodiad Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) bydd gofyn cynyddol am weithlu addysgu dwyieithog ac mae’r rhaglen arloesol mae’r Ganolfan eisoes yn ei chynnal ar gyfer y gweithlu addysg yn gyfraniad pwysig i ateb y galw hwn. Mae’r rhaglen yn datblygu sgiliau iaith, yn codi hyder ac yn arfogi’r gweithlu addysg i rannu’r Gymraeg â’i disgyblion.

Mae dewis eang o gyrsiau ar gael, sydd wedi’u teilwra ar gyfer y sector cynradd ac uwchradd, gan gynnwys cyfleoedd hunan-astudio ar-lein yn ogystal â chyrsiau o dan arweiniad tiwtor. Mae tiwtoriaid Gweithlu Addysg penodol yn cefnogi amcanion Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdodau lleol. Mewn rhai achosion, mae tiwtoriaid wedi’u lleoli mewn ysgolion sy’n cynllunio i newid cyfrwng iaith yr ysgol. Cynigir hyfforddiant i fyfyrwyr sy’n dilyn Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon, gan gynnwys cyrsiau Gloywi, i fagu hyder siaradwyr Cymraeg i ddysgu trwy gyfrwng yr iaith. Ym mis Medi 2025, trosglwyddwyd y ddarpariaeth Dysgu Cymraeg dwys – y cwrs sabothol gynt – i ofal y Ganolfan gyda thri darparwr yn cynnig hyfforddiant dwys dros gyfnod o ddau dymor i athrawon cynradd ac uwchradd.

“Mae fy mywyd i nawr yn hollol wahanol. Dw i’n siarad Cymraeg o fore tan nos achos nawr rydw i’n dysgu trwy’r Gymraeg. Rydw i’n siarad Cymraeg o hyd gyda staff yr ysgol. Rydw i’n eu dysgu nhw hefyd. Dw i’n dwlu ar y Gymraeg nawr.”

Sarah Morris-Colles, Ysgol y Cribarth, Aber-craf

Cefnogi dysgwyr

Mae’r cynnig sydd ar gael i gefnogi dysgwyr wedi tyfu yn sylweddol, ac yn cyfoethogi iaith a hyder ein dysgwyr i ddefnyddio’r Gymraeg. Sefydlwyd mentrau fel cynlluniau Siarad a Hapus i Siarad i helpu dysgwyr i ddatblygu hyder, gan ddefnyddio’r Gymraeg yn gymdeithasol ac yn eu cymunedau. Cynhaliwyd cyrsiau preswyl poblogaidd yn Llangrannog a Glan-llyn, a digwyddiadau a gweithgareddau eraill.

Yn 2018, lansiwyd cynllun Amdani mewn partneriaeth â Chyngor Llyfrau Cymru. Dyma gynllun i gyhoeddi cyfres o lyfrau hamdden, wedi’u graddoli yn ôl y lefelau Dysgu Cymraeg. Mae’r llyfrau yn cefnogi’r cwricwlwm ac yn atgyfnerthu’r hyn sy’n cael ei ddysgu ar lawr y dosbarth. Erbyn hyn, mae dros 50 teitl yn y gyfres, ac mae dros 84,000 o lyfrau wedi’u gwerthu – camp sy’n adlewyrchu poblogrwydd y gyfres, a’r awydd gan ddysgwyr i ddarllen llyfrau Cymraeg.

Siarad.

Siaradwyr Cymraeg a dysgwyr gyda’i gilydd
Bringing Welsh speakers and learners together

“The best thing about being a Learn Welsh tutor is seeing learners gain confidence and start using Welsh in their everyday lives. It’s a privilege to be part of their linguistic journey and to share my love for the language with them. I enjoy being creative in planning lively, interesting lessons that suit my learners’ needs.”

Mari Hefin, Learn Welsh tutor, who attended the Tutors of Tomorrow course

The Education Workforce

The Welsh Language and Education (Wales) Act 2025 will mean an increased demand for a bilingual teaching workforce. The Centre already manages a national programme for the education workforce, and it makes a key contribution to meeting that demand. The programme develops staff’s language skills, builds their confidence and equips them to share Welsh with their pupils.

A wide range of courses is available, tailored to primary and secondary schools, from tutor-led courses to online self-study. Dedicated education workforce tutors help local authorities meet the aims of their Welsh in Education Strategic Plans. In some cases, tutors are based in schools that are planning to change their language medium. Training is offered to students on Initial Teacher Training courses, including ‘Gloywi’ (Proficiency) courses that help Welsh speakers gain the confidence to teach through the medium of Welsh. In September 2025, responsibility for the intensive Learn Welsh provision (formerly the sabbatical course) moved to the Centre. Three providers now offer training over two terms for primary and secondary teachers.



“My life now is completely different. I speak Welsh from morning till night because I now teach through the medium of Welsh. I always speak Welsh with school staff. I teach them as well. I love Welsh now.”

Sarah Morris-Colles, Ysgol y Cribarth, Abercrave

Supporting learners

The support available to learners has grown significantly, helping them build their Welsh and boosting their confidence to use the language. For instance, the ‘Siarad’ scheme pairs Welsh learners and speakers who meet for conversational practice, while the ‘Hapus i Siarad’ scheme encourages learners to use their Welsh skills in local businesses in their communities. Popular residential courses have been held at the Urdd’s residential centres in Llangrannog and Glan-llyn, as well as other events and activities.

In 2018, the ‘Amdani’ scheme was launched in partnership with the Books Council of Wales. The scheme publishes a series of leisure books, graded to match the Learn Welsh levels. The books support the curriculum and reinforce what learners are taught in class. There are now more than 50 titles in the series, and over 84,000 copies have been sold – reflecting both the series’ popularity and our learners’ enthusiasm for reading books in Welsh.

Cynllun Codi Hyder a Defnyddio

Dros y blynyddoedd, mae'r Ganolfan wedi datblygu hyfforddiant sy'n cefnogi siaradwyr dihyder a siaradwyr sydd heb ddefnyddio'r Gymraeg ers amser hir. Yn y dyddiau cynnar, cefnogwyd y garfan hon trwy'r ddarpariaeth Dysgu Cymraeg ar gyfer gweithluoedd a'r rhaglen ar gyfer y sector iechyd a gofal cymdeithasol, gan godi hyder unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau proffesiynol. Yn 2024-2025, ymestynnwyd y cynlluniau hyn i sefyllfaoedd cymunedol. Mae'r ddarpariaeth yn cwmpasu seicoleg newid ymddygiad, sgiliau ieithyddol ac ymwybyddiaeth iaith a darparwyd hyfforddiant arbenigol i diwtoriaid i gynnal y cyrsiau.



Croeso i bawb

Yn 2023, lansiodd y Ganolfan becyn adnoddau 'Croeso i Bawb', sy'n cyflwyno'r Gymraeg a Chymru i bobl nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt neu nad ydynt yn siarad llawer o Saesneg. Mae gwahanol adnoddau ar gael, trwy gyfrwng amryw o ieithoedd, gan gynnwys Wcreineg, Cantoneg, Arabeg Syria, Farsi a Pashto.

Yn 2025 lansiwyd Cynllun Gwrth-Hiliaeth y Ganolfan er mwyn cefnogi cynllun Llywodraeth Cymru i wneud newid sylweddol i fywydau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Yn 2026, drwy gefnogaeth Medr, datblygwyd cynllun WSOL (Welsh for Speakers of Other Languages) am y tro cyntaf, o dan arweiniad y Ganolfan.

Partneriaethau

Mae partneriaethau strategol wedi bod yn ganolog i ddull gweithredu'r Ganolfan ers ei sefydlu, gan ymestyn ei chyrhaeddiad a chryfhau ei rôl fel sefydliad cenedlaethol sy'n arwain ac yn dylanwadu ar y sector Dysgu Cymraeg. O'r cydweithio allweddol â darparwyr Dysgu Cymraeg i ddatblygu perthnasau â sefydliadau cenedlaethol ar draws ystod o sectorau, mae'r Ganolfan wedi defnyddio partneriaethau i ehangu'r cynnig dysgu ffurfiol ac anffurfiol ac, yn hollbwysig, i greu cyfleoedd ystyrlon i ddysgwyr a siaradwyr newydd ddefnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

Drwy gydweithio â chyrff megis S4C, BBC Radio Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru, Cymdeithas Bêl-droed Cymru, Chwaraeon Cymru, Mudiad Meithrin, Mentrau Iaith Cymru, Comisiynydd y Gymraeg a llawer mwy, mae'r Ganolfan wedi gallu cysylltu dysgu'r Gymraeg â chyfleoedd i'w defnyddio mewn cyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol a phroffesiynol. Mae'r dull hwn yn cynyddu effaith y Ganolfan: mae'n helpu i greu'r amodau i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn eu bywydau pob dydd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle. Ar yr un pryd, mae'r rhwydwaith cynyddol o bartneriaethau yn galluogi'r Ganolfan i chwarae rhan ehangach mewn cynllunio ieithyddol, gan ddod â dysgu, defnydd o'r Gymraeg a gwaith sectorau cenedlaethol ynghyd er mwyn cyfrannu at gynyddu defnydd o'r iaith.

"Un o rinweddau nodedig y Ganolfan yw'r modd mae arweinwyr yn cydweithio'n strategol i gynllunio'r ddarpariaeth a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cydweithrediad arloesol ag ystod o bartneriaid gwerthfawr."

Arolwg Estyn o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, 2024

Confidence-building Scheme

Over the years, the Centre has developed training for Welsh speakers who lack confidence to speak the language, or who haven't used their Welsh for a long while. At first, we supported this cohort through our Learn Welsh provision for workforces and the health and social care programme, building people's confidence to use Welsh at work. In 2024-2025, these schemes were extended to community settings. The courses cover behaviour-change psychology, language skills and language awareness. Tutors have received specialist training to deliver these courses.

All are welcome

In 2023, the Centre launched the 'Croeso i Bawb' (All are Welcome) resource pack, which introduces Wales and the Welsh language to people whose first language isn't English or who don't speak much English. The resources are available in a range of languages, including Ukrainian, Cantonese, Syrian Arabic, Farsi and Pashto.

In 2025, the Centre launched its Anti-Racist Scheme to support the Welsh Government's action plan, which aims to make a real difference to the lives of Black, Asian and Minority Ethnic people in Wales. In 2026, the Centre led the development of a new Welsh for Speakers of Other Languages (WSOL) scheme, with support from Medr, the body responsible for overseeing and funding tertiary education and research in Wales.

Partnerships

Strategic partnerships have been central to the Centre's approach from the beginning. They have extended its reach and strengthened its role as a national organisation leading and influencing the Learn Welsh sector. The Centre has worked closely with Learn Welsh providers and built relationships with national organisations in many sectors. These partnerships have widened formal and informal learning and, above all, given learners and new speakers real opportunities to use Welsh outside the classroom.

The Centre has linked learning Welsh with opportunities to use it in social, cultural and work settings by partnering with organisations such as S4C, BBC Radio Cymru, the Books Council of Wales, the Football Association of Wales, Sport Wales, Mudiad Meithrin, Mentrau Iaith Cymru and the Welsh Language Commissioner, among many others. This approach increases the Centre's impact, helping to create the conditions for people to use Welsh confidently in their everyday lives, in their communities and at work. At the same time, the growing network of partnerships allows the Centre to play a wider role in language planning, connecting learning, language use and the work of various national agencies to increase the use of Welsh.

"One of the Centre's notable qualities is the way in which leaders work together strategically to plan provision and opportunities to use the Welsh language through innovative collaboration with a range of valuable partners."

Estyn's report on the National Centre for Learning Welsh, 2024

EFFAITH A DYLANWAD

Mae Estyn yn disgrifio'r Ganolfan fel 'dylanwadwr ieithyddol' ac mae nodi'r gydnabyddiaeth honno yn yr Adroddiad Deg Mlynedd hwn yn bwysig. Nid yw'r Ganolfan yn gweithredu mewn seilo ac mae cydweithredu, eirioli a dylanwadu yn rhan o'n dull gweithio.

"Dros amser, mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn esblygu o fod yn ddarparwr cyrsiau a gweithgareddau Cymraeg i ddysgwyr yn unig i fod yn ddylanwadwr ieithyddol. Mae'n ganolog i fentrau niferus i normaleiddio defnydd o'r iaith ymhlith dysgwyr a siaradwyr anfoddog o bob oedran yn gymunedol ac o fewn sectorau allweddol. Mae partneriaid yn ystyried y Ganolfan yn gonglfaen yr ymdrechion arloesol hyn ac yn ei gweld yn fanteisiol bod un sefydliad yn meddu ar yr arbenigedd addysgol a'r weledigaeth strategol i gynllunio'n ieithyddol yn llwyddiannus."

Adroddiad Estyn ar y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol Ebrill 2024

Rydym yn chwarae ein rhan yn nhirwedd cynllunio ieithyddol Cymru ac wrth ystyried ein heffaith a'n dylanwad, rydym wedi canolbwyntio ar themâu strategol Cymraeg 2050.

Cefnogi amcanion Cymraeg 2050

Ers ein sefydlu, rydym wedi cyfrannu at y targed o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae Denu, Dysgu a Defnyddio wedi bod yn sail i'n cynllunio strategol a hynny'n cael ei gyflawni wrth i'n darpariaeth ddenu dros 90,000 o ddysgwyr rhwng 2017 a 2025. Yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf, gwnaeth 20,445 o unigolion gwblhau ein cyrsiau. O ran y dysgu, rydym wedi gweld cynnydd cyson yn nifer y gweithgareddau dysgu mae dysgwyr yn eu cwblhau, gyda chynnydd sylweddol o 79% rhwng 2017-18 a 2024-2025.

Seilwaith ymchwil cynllunio a chaffael iaith

Mae'r Ganolfan yn cyfrannu at greu seilwaith a chyd-destun ar gyfer y Gymraeg. Mae ein profiad ac ymchwil yn rhoi seilwaith cynllunio ieithyddol bwysig o safbwynt caffael iaith a hyrwyddo ei defnydd.

Dros y cyfnod diwethaf mae'r Ganolfan wedi cydlynu a chyfrannu at ymchwil arloesol sydd wedi dylanwadu ar gyfeiriad strategol ei gwaith. Mae'r gwaith yma'n cynnwys prosiectau sy'n edrych ar sut i arfogi siaradwyr Cymraeg i siarad â dysgwyr, proffilio Cymraeg llafar dysgwyr 16-17 oed a choladu geirfa graidd fydd yn sail i addysgu'r Gymraeg i blant mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg.



IMPACT AND INFLUENCE

Estyn has described the Centre as a 'linguistic influencer', a recognition worth highlighting in this Ten-Year Report. We do not work in isolation: collaboration, advocacy and influence are all part of our approach.

"Over time, the National Centre for Learning Welsh is evolving from being a provider of Welsh for adults courses and activities only, to being a linguistic influencer. It is central to numerous initiatives to normalise the use of the language among learners and reluctant speakers of all ages, both in the community and within key sectors... Partners consider the Centre to be the cornerstone of these innovative efforts and see it as advantageous that one organisation has the educational expertise and strategic vision necessary for successful linguistic planning."

Estyn's report on the National Centre for Learning Welsh, 2024

We play an active part in Welsh language planning. When considering our impact and influence, we have focused on the strategic themes of Cymraeg 2050 – the Welsh Government's long-term strategy to promote the Welsh language.

Supporting the aims of Cymraeg 2050

Since the Centre was established, we have contributed to the target of reaching a million Welsh speakers by 2050. We have based our strategic plans on three themes: 'Attract', 'Teach' and 'Use'. Between 2017 and 2025, our provision attracted more than 90,000 learners, and in 2024–2025, 20,445 people completed our courses. We have also seen a consistent rise in the number of learning activities completed, with a 79% increase between 2017-2018 and 2024-2025.

Research to support language planning and acquisition

The Centre helps create the infrastructure and conditions that support the Welsh language. Our experience and research form a key part of Wales's language planning infrastructure, in terms of learning Welsh and encouraging its use.

Recently, the Centre has co-ordinated and contributed to pioneering research that has shaped the strategic direction of its work. This research includes projects on how to enable Welsh speakers to better support learners; on profiling the spoken Welsh of learners aged 16–17; and on collating the core vocabulary that will form the basis of teaching Welsh to children in English-medium primary schools.

Yn 2026 lansiwyd Strategaeth Ymchwil newydd y Ganolfan. Mae'r Strategaeth yn sefydlu'r Ganolfan fel un pwynt cyswllt canolog ar gyfer ymchwil dysgu ac addysgu gan osod fframwaith ar gyfer cydlynu, cynhyrchu, comisiynu, a defnyddio ymchwil i lywio ac arwain y sector Dysgu Cymraeg. Nod y strategaeth yw creu sail dystiolaeth gadarn sy'n cryfhau'r ddarpariaeth, yn cynyddu hyder dysgwyr a'u defnydd o'r iaith, ac yn cyfrannu'n uniongyrchol at nodau polisi cenedlaethol ehangach.

Amlygodd arolwg Estyn 2024 ddefnydd y Ganolfan o ymchwil gan sawl cyfarwyddiaeth, gan gynnwys ymchwil dysgu ac addysgu ac ymchwil i batrymau dysgwyr at ddibenion marchnata.

"Mae'r Ganolfan yn flaengar yn ei defnydd o ymchwil i lunio darpariaeth... Mae'r Ganolfan hefyd yn ymgymryd ag ymchwil gyfoes â rhwydweithiau rhyngwladol yn effeithiol i sicrhau eu bod yn defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf er mwyn rhannu arferion dysgu iaith effeithiol."

Arolwg Estyn o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, 2024

Cymuned ac economi

Rydym yn cyfrannu'n anuniongyrchol at gynnal hyfywedd ieithyddol ein cymunedau. Bob blwyddyn mae tua 1,500 o gyrsiau Dysgu Cymraeg yn cael eu cynnal mewn cymunedau ar draws Cymru a gweithredir ein cynllun Siarad i annog dysgwyr i ymarfer a chymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae dysgu'r Gymraeg wedi bod yn allwedd i nifer i wreiddio yn eu cymunedau, gan ymroi i'r diwylliant lleol trwy ymuno â chôr neu wirfoddoli â menter gymdeithasol neu brosiect cymunedol.

"Ro'n ni eisiau symud i rywle oedd â chymuned gref, y math o le ble mae cymdogion yn nabod ei gilydd a digon o bethau ymlaen, ond ro'n ni hefyd yn gwybod ei bod yn bwysig ymchwilio i ardal cyn symud yno – a phan welon ni fod 80% o bobol yr ardal yn siarad Cymraeg, ro'n ni'n gwybod byddai dysgu Cymraeg yn flaenoriaeth."

Anthea Fowler, siaradwr newydd o Lanystumdwy ac aelod o Fwrdd Menter y Plu

Mae'r sector hefyd yn gyflogwr pwysig, gan gyflogi dros 500 o staff ar hyd a lled Cymru gyda chynnydd sylweddol yn y cytundebau parhaol, llawn amser. Mae bod yn diwtor Dysgu Cymraeg yn yrfa, a chefnogir staff y sector gyda chyfleoedd datblygu proffesiynol trwy'r cynllun Academi a'r Gynhadledd flynyddol.

Mae ein cynlluniau i gefnogi gweithluoedd yn cryfhau lle'r Gymraeg o fewn seilwaith gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ac mae dros 2,000 o gyflogwyr wedi cymryd rhan yn y cynlluniau hynny. Mae'r Ganolfan wedi cefnogi adrannau o Wasanaeth Sifil Prydain a Chymru, Lluoedd Heddlu, cyrff sector cyhoeddus a llawer o gwmnïau yn y sector trydyddol a phreifat. Mae'r cynlluniau hyn yn rhoi hyder i ddysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn cyd-destunau gwaith gan alluogi sefydliadau i gynnal a chynyddu eu darpariaeth Gymraeg i'r cyhoedd.



In 2026 the Centre launched its new Research Strategy. The strategy makes the Centre the single point of contact for research into teaching and learning Welsh. It also sets out a framework for co-ordinating, producing, commissioning and using research to inform and lead the Learn Welsh sector. The strategy aims to build a robust evidence base that strengthens provision, helps learners use Welsh more often and with more confidence, and contributes directly to wider national policy goals.

Estyn's 2024 inspection report highlighted how several of the Centre's directorates use research, from studies of teaching and learning to analysis of learner patterns to inform marketing.

"The Centre is progressive in its use of research to shape provision... The Centre also undertakes contemporary research effectively with international networks to ensure that it uses the latest information to share effective language learning practices."

Estyn's report on the National Centre for Learning Welsh, April 2024



Community and economy

We also contribute indirectly to the viability of Welsh language communities. Each year, around 1,500 Learn Welsh courses are held in communities across Wales. Our 'Siarad' scheme also encourages learners to practise and socialise in Welsh.

For many people, learning Welsh has been the key to putting down roots in their communities and getting involved in local life, whether by joining a choir or volunteering with a social enterprise or community project.

"I wanted to move to somewhere that had a strong community, the kind of place where neighbours know each other and plenty of stuff goes on. But I also knew it was important to research an area before moving there. When we saw that 80% of the people in the area spoke Welsh, we knew learning Welsh would be a priority."

Anthea Fowler, a new Welsh speaker from Llanystumdwy and board member of Menter y Plu, a local community enterprise

The sector is also a significant employer, with more than 500 staff across Wales and a marked rise in permanent, full-time contracts. Being a Learn Welsh tutor is a career in its own right, and we support staff's professional development through the 'Academi' scheme and our annual conference.

More than 2,000 employers have taken part in our workforce schemes, which are strengthening the position of Welsh in public services across Wales. The Centre has supported UK Government and Welsh Government departments, police forces, public bodies, tertiary education providers and many private companies. These schemes give learners the confidence to use their Welsh at work, which helps organisations maintain and expand the Welsh-language services they offer the public.



Diwylliant a'r cyfryngau

Yn ddiwylliannol, mae'r Ganolfan wedi bod yn ysgogydd i ddatblygiadau cyffrous. Mae partneriaethau ag S4C, BBC Radio Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru yn denu dysgwyr at y cyfryngau Cymraeg a llyfrau Cymraeg. Mae gwerthiant llyfrau 'Amdani' yn destun cryn falchder ac yn dangos ymrwymiad dysgwyr nid yn unig i ddysgu'r iaith, ond hefyd i drwytho eu hunain yn ein diwylliant a'n celfyddyd.

"Mae llwyddiant cyfres Amdani wedi galluogi miloedd o ddysgwyr i fwynhau llenyddiaeth Gymraeg gyfoes yn gynnar yn eu taith iaith ac mae'r ffigyrau gwerthiant yn gyfraniad sylweddol i'r diwydiant cyhoeddi yma yng Nghymru."

Alun Jones, Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Gweithlu'r dyfodol

Mewn gweithluoedd a sectorau o flaenoriaeth ar draws Cymru, mae dysgu Cymraeg wedi ei integreiddio i lwybrau dysgu staff amrywiol sectorau. Cynlluniwyd darpariaeth arbenigol wedi ei theilwra a buddsoddwyd yn natblygiad ieithyddol miloedd o weithwyr.

Drwy ei rhaglen Pobl Ifanc mae'r Ganolfan wedi dylanwadu ar ddatblygiad ieithyddol nifer gynyddol o bobl fydd yn ffurfio rhan o weithlu'r dyfodol. Rydym wedi gwneud hynny yn gydlynus gan gefnogi gweithluoedd mewn ystod o sectorau. Drwy gydweithio â'r Sector Addysg Drydyddol mae'r Ganolfan wedi cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr ddilyn cyrsiau Dysgu Cymraeg tra'n astudio, gan sicrhau continwwm Dysgu Cymraeg ôl-16 clir.

"Mae ein buddsoddiad strategol mewn gweithluoedd a phobl ifanc wedi bod yn allweddol i ehangu cyrhaeddiad y Ganolfan ac i newid proffil yr unigolion sy'n dysgu Cymraeg. Heddiw, mae dysgu'r Gymraeg yn rhan gynyddol o fywyd gwaith a datblygiad proffesiynol pobl, yn ogystal â bod yn gyfle i genhedlaeth newydd feithrin eu sgiliau a'u hyder yn yr iaith. Mae'r ffaith mai pobl o oedran gweithio sydd bellach yn ffurfio'r rhan fwyaf o'n dysgwyr yn dangos sut mae'r sector wedi datblygu, ac yn rhoi sylfaen gref inni barhau i gysylltu dysgu'r Gymraeg â chyfleoedd gwirioneddol i'w defnyddio yn y gweithle, yn y gymuned ac mewn bywyd pob dydd."

Dona Lewis, Prif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Culture and media

Culturally, the Centre has initiated some exciting developments. Our partnerships with S4C, BBC Radio Cymru and the Books Council of Wales attract learners to Welsh-language media and books. Sales of the 'Amdani' books are a source of great pride, and they show learners' commitment to both learning Welsh and immersing themselves in our culture and the arts.

"The success of the 'Amdani' series has enabled thousands of learners to enjoy contemporary Welsh literature early in their language journey, and the sales figures are a significant contribution to the publishing industry here in Wales."

Alun Jones, Chair of the Centre's Advisory Board

The workforce of the future

In priority workforces and sectors across Wales, learning Welsh is now built into staff training pathways. We have designed specialist, tailored courses and invested in developing the Welsh language skills of thousands of employees.

Through its programme for young people, the Centre has helped develop the Welsh skills of a growing number of those who will become tomorrow's workforce. We have taken a joined-up approach, supporting workforces across a range of sectors. By working with the tertiary education sector, the Centre has given students the chance to take Learn Welsh courses while they study, creating a clear pathway for learning Welsh after the age of 16.

"Our strategic investment in workforces and young people has been instrumental in widening the Centre's reach and changing who is learning Welsh. Today, learning Welsh is a growing part of people's working lives and professional development, and it gives a new generation the chance to build their skills and confidence in Welsh. Most of our learners are now of working age, which shows how far the sector has come. It also gives us a strong foundation for continuing to link learning Welsh with real opportunities to use it at work, in the community and in everyday life."

Dona Lewis, Chief Executive of the National Centre for Learning Welsh

Llywio drwy bandemig a chofleidio'r rhithiol

Roedd pandemig Covid-19 yn gyfnod trawsffurfiol i'r Ganolfan. O fewn cyfnod byr iawn, sefydlwyd modelau dysgu o bell mewn dosbarthiadau rhithiol ac ar-lein, a dechreuwyd canolbwyntio ar ddulliau marchnata digidol yn unig.

Roedd cynlluniau i addysgu yn rhithiol eisoes wedi ei adnabod fel maes twf, ond yn sgil y pandemig, blaenoriaethwyd y cynlluniau hyn ac o fewn rhai misoedd, roeddem wedi sefydlu cyrsiau digidol arloesol a systemau rhithiol i gefnogi ein dysgwyr. Roedd y rhain yn cynnwys Cyrsiau Cyfunol Cenedlaethol lefel Mynediad i ddechreuwyr, oedd yn gyrsiau 10 wythnos gyda 75% o'r dysgu o dan arweiniad tiwtor mewn dosbarth rhithiol, a'r 25% yn weddill, trwy hunan-astudio ar-lein.

"'Cofid' wrth gwrs yrrodd y newid mwyaf i'r ddarpariaeth Dysgu Cymraeg yn ystod fy nghyfnod fel Prif Weithredwr. Roedd pryder gwirioneddol y gallai'r gwasanaeth dysgu ddod i stop, ond roeddwn yn argyhoeddedig y gellid goresgyn hynny drwy drosi i fod yn wasanaeth rhithiol dros nos. Ac fe wnaethom hynny trwy ryw ryfedd wyrth. Roedd hyn yn golygu ymdrech enfawr i lawer iawn o bobl ar draws y sector, nid y lleiaf swyddogion y Ganolfan fu'n hynod brysur yn creu deunyddiau digidol o'r newydd."

Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr cyntaf y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Darparwyd cefnogaeth i'n tiwtoriaid, hefyd, wrth iddynt addasu ar gyfer yr ystafell ddosbarth rithiol.

Roedd 2020 yn heriol i bawb ond o ran niferoedd y dysgwyr, bu'n flwyddyn o dwf eithriadol. Cynyddodd y niferoedd o 13,260 i 17,505 yn 2020. Ymatebodd staff y sector i her y pandemig a bu'r cyrsiau yn gynhaliaeth i nifer lawer o ddysgwyr yn ystod y cyfnod anodd yma.

Rhagoriaeth

Mae datblygu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi bod yn daith ac mae dal a chofnodi'r dysgu sefydliadol a wnaed trwy gydol y broses honno yn bwysig. Mewn cyfnod byr o amser, llwyddwyd i ymateb i adroddiad uchelgeisiol *Codi Golygon* a sefydlu corff cenedlaethol arloesol, arbenigol, effeithiol ac effeithlon. Cyflwynwyd system lywodraethu gadarn a chyfundrefnau cenedlaethol i arwain a thrawsnewid y sector Dysgu Cymraeg. Gwnaethpwyd hynny mewn cydweithrediad â'r darparwyr Dysgu Cymraeg a phartneriaid eraill. Sefydlwyd systemau i adnabod rhagoriaeth a'i lledaenu ar draws y darparwyr gan feithrin diwylliant adeiladol a chefnogol.





Navigating a pandemic and embracing online provision

The COVID-19 pandemic changed the Centre profoundly. Within weeks, we had established distance learning through virtual classes, and our marketing moved entirely to digital channels.

We had already identified virtual teaching as an area for growth, but the pandemic made it a priority. Within a few months, we had also set up new digital courses and online systems to support our learners. These included national blended courses at Entry level: 10-week courses for beginners, with 75% of the learning led by a tutor in a virtual classroom and 25% through online self-study.



"Covid, of course, drove the biggest change to Learn Welsh provision during my period as Chief Executive. There was a real concern that our services might come to a standstill, but I was convinced we could overcome this by moving the service online straight away. And by some miracle, we managed it. It took a huge effort from a great many people across the sector, not least the Centre's staff, who worked tirelessly to create digital materials from scratch."

Efa Gruffudd Jones, first Chief Executive of the National Centre for Learning Welsh

Support was provided to our tutors, too, as they adjusted to teaching in virtual classrooms.

2020 was challenging for everyone, but for learner numbers, it was a year of exceptional growth. Numbers grew from 13,260 to 17,505 in 2020. Staff across the sector met the challenge of the pandemic, and the courses supported many learners through this difficult time.

Excellence

The National Centre for Learning Welsh has come a long way, and it is worth reflecting on what we have learnt as an organisation over that time. In a short period, we were able to respond to the ambitious *Raising our sights* report and set up a national body that was innovative, specialist, effective and efficient. We introduced strong governance and national systems to lead and reshape the Learn Welsh sector. We did this together with Learn Welsh providers and other partners. We set up systems to identify excellence and share it across providers, which helped create a constructive and supportive culture.

“Mae prosesau adnabod arferion da yn digwydd ar sawl haen o fewn y Ganolfan. Adnabyddir rhagoriaeth o ran arferion rheolaeth ac addysgu effeithiol. Gwahoddir rheolwyr i gyflwyno yn y cyfarfod rheolwyr i rannu arferion ar feysydd megis cyfathrebu effeithiol. Mae’r darparwyr eu hunain yn adnabod eu rhagoriaethau hwy ac yn gwahodd y tiwtoriaid hynny er mwyn rhannu arferion da yn lleol ac yn genedlaethol. Mae’r rhaeadru hyn yn cefnogi’r sector i anelu at ragoriaeth.”

Adroddiad Estyn ar y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Ionawr 2021

Roedd craffu annibynnol hefyd yn allweddol i sicrhau ein bod ni wastad yn adnabod cryfderau a chyfleoedd i wella, ac arferion da i’w rhannu â sefydliadau eraill. Bu arolygon Estyn yn ganmoliaethus yn 2021 a 2024 ond defnyddiwyd argymhellion yr adroddiadau i yrru newidiadau a gwelliannau hefyd. Yn yr un modd, bu’r Bwrdd Ymgynghorol yn cynghori, ac yn cefnogi ein gwaith.



Siaradwyr Cymraeg newydd

Mae’n debyg fod tystiolaeth o effaith a dylanwad ein gwaith yn cael ei mynegi orau gan y dysgwyr sydd wedi eu croesawu a’u cefnogi gennym. Mae ein hadroddiadau blynyddol, ein gwefan a’n cyfryngau cymdeithasol yn llawn dyfyniadau ysbrydoledig gan ddysgwyr o bob cwr o Gymru ac o bob cefndir ac oedran. Mae’r straeon hyn yn codi calon ac yn ysbrydoli.

Mae’r sector hefyd yn cynnig cymuned gynhwysol a chroesawgar i’r rhai sy’n dysgu’r Gymraeg. Mae nifer o siaradwyr newydd yn eu tro yn dod yn diwtoriaid, cyfeillion oes i’r sector ac yn gefn i ddysgwyr eraill. Mae cynllun Llysgenhadon Dysgu Cymraeg y Ganolfan a’r llwyfan rydym wedi ei roi i leisiau dysgwyr wedi bod yn bwysig i ni o’r cychwyn. Nid yn unig o ran dathlu eu llwyddiant ond hefyd o ran ysbrydoli a chefnogi eraill.

Un o’r Llysgenhadon Dysgu Cymraeg diweddar yw’r fynyddwraig Tori James.

“Mae dysgu iaith yn cymryd amynedd ac ymrwymiad, ond bob blwyddyn dw i’n cyrraedd copa newydd. Dw i’n gallu gwneud mwy a dweud mwy nag o’r blaen. Mae’n eithaf emosiynol, a dweud y gwir, gweld pa mor bell dw i wedi dod. Bob wythnos dw i’n siarad â rhywun sydd eisiau dysgu, neu sy’n trio dysgu. Dw i’n dweud: “Mae’n cymryd amser, ond ti’n gallu.” Dw i’n mwynhau annog eraill i ddysgu drwy fy ngwaith fel Llysgennad Dysgu Cymraeg. Mae’n arbennig iawn bod fy chwaer yn dysgu hefyd, a ’dyn ni’n ymarfer gyda’n gilydd. Mae wedi rhoi cysylltiad newydd i mi gyda phobl dw i wedi’u hadnabod ers blynyddoedd.”

Tori James, Llysgennad Dysgu Cymraeg

“Processes for identifying good practice occur at several tiers within the Centre. Excellence is identified in terms of effective management and teaching practices. Managers are invited to share practice in the management meeting in areas such as effective communication. Providers themselves identify their own areas of excellence and invite the relevant tutors to share good practice locally and nationally. This cascading of information supports the sector in aiming for excellence.”

Estyn’s report on the National Centre for Learning Welsh, January 2021

Independent scrutiny was also key, helping us identify our strengths, areas for improvement and good practice to share with other organisations. Estyn’s inspection reports in 2021 and 2024 were very positive, but we used their recommendations to drive further improvement. Similarly, the Advisory Board has provided both advice and support for our work.



New Welsh speakers

The best evidence of our impact and influence probably comes from the learners we have welcomed and supported. Our annual reports, interactive website and social media are full of inspiring testimonies from learners of all ages and backgrounds, from all over Wales. These stories are heartwarming and uplifting.

The sector offers a welcoming, inclusive community for people learning Welsh. In turn, new speakers support other learners, while some go on to become tutors or lifelong friends of the sector. From the outset, we have placed great value on our Learn Welsh Ambassador scheme and on giving learners a platform to share their stories, both to celebrate their success and to inspire and support others.

One of our recent Learn Welsh Ambassadors is the mountaineer, Tori James.

“Learning a language takes patience and commitment, but every year I reach a new peak. I can do more and say more than before. It’s quite emotional, to be honest, to see how far I’ve come. Every week, I talk to someone who wants to learn, or who’s already trying to. I tell them: ‘It takes time, but you can do it.’ As a Learn Welsh Ambassador, I enjoy encouraging others to learn. It’s really special that my sister is learning too, and we practise together. It’s given me a new connection with people I’ve known for years.”

Tori James, Learn Welsh Ambassador

MYFYRIO AC EDRYCH YMLAEN

Dathliad yw'r Adroddiad hwn. Dathliad o gynnydd ieithyddol, a dathliad o'r bobl sy'n rhan o'r sector yma – yn ddysgwyr a siaradwyr newydd, yn ogystal â'r bobl sy'n eu cynnal mewn gwersi a gweithgareddau ar hyd a lled Cymru.

Mae'r adroddiad yn cwmpasu 10 mlynedd o weithgarwch ac yn ddathliad o gyflawniad staff ddoe a heddiw yn ogystal â chyfraniad nodedig gan unigolion eraill ar hyd y daith. Mae'n cofnodi llwyddiant a balchder o fod wedi llwyddo i weithredu ar argymhellion *Codi Golygon* a rhoi cyfle i dros 90,000 o siaradwyr newydd ddysgu Cymraeg.



"Mae'r adroddiad yma'n tystio i'r gwaith arloesol sydd wedi cymryd lle o dan arweiniad Efa Gruffudd Jones ac yna Dona Lewis, a gwaith tîm cyfan y Ganolfan a'r sector ehangach. Nid sefyll yn llonydd wnaeth y rhain ond gosod seiliau cadarn i'r maes a sicrhau fod gwella ansawdd a datblygu mewn nifer o ffyrdd yn ganolog i'w gwaith. Mae sylwadau Estyn ar y maes a'r Ganolfan yn brawf clir o hyn ynghyd â chefnogaeth Llywodraeth Cymru a nifer o gyrff eraill drwy'r blynyddoedd. Bellach mae Cymraeg i Oedolion yn gyfundrefn helaeth a deinamig... Boed i'w datblygiad barhau gyda'r un brwdfrydedd ac ansawdd ac a gaed yn y degawd diwethaf."

Dr Haydn Edwards, awdur *Codi Golygon*

Mae'n ddiwedd cyfnod ar y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ond bydd gwaddol a momentwm ein gwaith yn parhau o fewn strwythur newydd yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol – corff statudol dan Ddeddf y Gymraeg ac Addysg, fydd yn helpu pawb yng Nghymru i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a dysgu a mwynhau'r iaith gydol eu bywydau.



REFLECTING AND LOOKING AHEAD

This report is a celebration. A celebration of progress in learning Welsh, and a celebration of the people who make up this sector: new learners and speakers, and everyone who leads lessons and activities across Wales.

The report covers 10 years of activity and celebrates the achievements of staff past and present, and the valuable contributions of many others along the way. It records, with pride, how we have put the recommendations of *Raising our sights* into practice and given more than 90,000 people the chance to learn Welsh.

"This report shows the pioneering work led first by Efa Gruffudd Jones and then by Dona Lewis, and carried out by all the Centre's team and the wider sector. They never stood still. They laid solid foundations for the sector and made improvement and development central to everything they did. Estyn's comments on the sector and the Centre are clear evidence of this, as is the continued support of the Welsh Government and many other bodies over the years. Welsh for Adults is now a wide-ranging, dynamic sector. I hope it continues to grow with the same enthusiasm and commitment to quality as over the past decade."

Dr Haydn Edwards, author of the *Raising our sights* report

It's the end of an era for the National Centre for Learning Welsh. However, the legacy and momentum of our work will continue within the new structure of the National Institute for Learning Welsh. As a statutory body under the Welsh Language and Education (Wales) Act 2025, the Institute will help everyone in Wales learn, develop and enjoy Welsh throughout their lives.



“Mae darpariaeth a chyfrifoldebau’r Ganolfan wedi cynyddu yn aruthrol yn ystod y degawd diwethaf ac mae’r cyflawniadau yn dyst i waith caled ac ymroddiad y staff. Mae’r gallu yma i ymateb yn sydyn ac effeithiol i heriau newydd yn gryfder amhrisiadwy wrth arwain at sefydlu’r Athrofa – lle bydd y twf sylweddol pellach mewn darpariaeth a chyfrifoldebau.”

Alun Jones, Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol y Ganolfan

“Mae dyfodiad y Ddeddf a sefydlu’r Athrofa yn rhoi cyfle i sefydlu strategaeth dysgu Cymraeg gydol oes - strategaeth sydd â’i gwreiddiau yn yr hyn yr ydym ni fel Canolfan wedi ei gyflawni dros y degawd diwethaf, ac mae hynny’n destun balchder i ni gyd.”

Dona Lewis, Prif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Camwn ymlaen yn hyderus felly, i gyfnod ble bydd ein hiaith yn ffynnu o fewn cyfundrefn Dysgu Cymraeg gydol oes newydd. Diolch i bawb sydd wedi cefnogi gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac edrychwn ymlaen at adeiladu ar y llwyddiant hwnnw.

Llwyddodd y Ganolfan i afael llaw miloedd o ddysgwyr ar eu taith ddysgu dros y ddeng mlynedd ddiwethaf a theimlwn falchder aruthrol yn yr hyn a gyflawnwyd. Gyda’n gilydd, camwn ymlaen.

“The Centre’s provision and responsibilities have grown enormously over the past decade, and its achievements reflect the hard work and dedication of its staff. This ability to respond quickly and effectively to new challenges will be an invaluable strength as we move to the National Institute for Learning Welsh, where provision and responsibilities will grow significantly again.”

Alun Jones, Chair of the Centre’s Advisory Board

“The Act and the new Institute give us an opportunity to create a strategy for lifelong learning of Welsh. That strategy will be rooted in the Centre’s achievements over the past decade, which give us a great sense of pride.”

Dona Lewis, Chief Executive of the National Centre for Learning Welsh

Over the past 10 years, the Centre has reached tens of thousands of learners, and we are immensely proud of what has been achieved.

We therefore look ahead with confidence to a time when our language will thrive within a new lifelong learning framework. Diolch yn fawr – with thanks to everyone who has supported the work of the National Centre for Learning Welsh. We look forward together to building on our success.

Awdurwyd gan/Report authored by:
Meleri Wyn Davies

Addasiad Saesneg/English adaptation:
Rhys Iorwerth Cyf.



Gyda diolch i holl staff y Ganolfan:
Diolch – with thanks to all the staff at the National Centre for Learning Welsh

Alaw Roberts
Aled M Davies
Anest Roberts
Awen Schiavone
Catrin Roberts
Cynwal ap Myrddin
Dona Lewis
Eirian Conlon
Eleri Mackay
Gareth Smith
Hannah Thomas
Heledd Iorwerth
Heledd Jones
Helen Morfydd
Helen Prosser
Laura Wyn Jones
Lowri Bunford-Jones
Lleucu Bebb
Mair Lenny-Turner
Manon Llwyd Bowen
Marc Morris
Meinir Ebbsworth
Meleri Light
Osian Jones
Owain Sparnon
Siwan Iorwerth

Gyda diolch i ddarparwyr cyrsiau craidd y Ganolfan
Diolch – with thanks to the core Learn Welsh Course Providers

Darparwr Provider	Sefydliad Cartref Host Institution
Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin Learn Welsh North West	Prifysgol Bangor Bangor University
Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain Learn Welsh North East	Coleg Cambria, yn gweithio gyda Popeth Cymraeg Coleg Cambria, working with Popeth Cymraeg
Dysgu Cymraeg Ceredigion - Powys - Sir Gâr Learn Welsh Ceredigion - Powys - Carmarthenshire	Prifysgol Aberystwyth Aberystwyth University
Dysgu Cymraeg Y Fro Learn Welsh The Vale	Prifysgol Aberystwyth Aberystwyth University
Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe Learn Welsh Swansea Bay Region	Prifysgol Abertawe Swansea University
Dysgu Cymraeg Sir Benfro Learn Welsh Pembrokeshire	Cyngor Sir Benfro Pembrokeshire County Council
Dysgu Cymraeg Gwent Learn Welsh Gwent	Coleg Gwent
Dysgu Cymraeg Caerdydd Learn Welsh Cardiff	Prifysgol Caerdydd Cardiff University
Dysgu Cymraeg Morgannwg Learn Welsh Glamorgan	Prifysgol De Cymru University of South Wales
Dysgu Cymraeg Nant Gwrtheyrn Learn Welsh Nant Gwrtheyrn	Nant Gwrtheyrn



Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG Dysgu Learn